"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD:

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1888. [RHIF 6.

CYNNWYSIAD.

TUD.
Y Moddion Goreu i gael Diwygiad yn yr Ysgol Sabbothol .. 121
Yr Hen Amser Gynt 124
Undodiaeth yn Nghymru 125
A fu golledig ac a gafwyd 128
Byrgofion am Enwogion Cymreig 132
Prif Gadair Coleg Caerfyrddin 135
Nodynau Gwasgarog 140
Manion a Hanesion.. 143
Marwgofion 144

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

Gelynion Gwaethaf y Ddynoliaeth wedi eu gorchfygu!

Dyfyniadau o LYTHYR IV. *yr enwog Ddr. Pan Jones a ymddangosodd yn "Tarian y Gweithiwr" a'r "Celt" am Rhag.* 9, 1886.

GELWAIS yn masnachdy Mr. George, Hirwaun, yn ddiweddar. Y mae Mr. George wedi bod yn fyfyriwr diwyd yn ysgol fawr anian, ac wedi llwyddo i ddarganfod meddyginiaeth effeithiol rhag dau o'r anhwylderau mwyaf beichus yn hanes y teulu dynol sef y **PILES** A'R **GRAVEL.**

Bu y ddau glefyd hyn drwy yr oesoedd fel yn chwerthin am ben pob meddyginiaeth. Y mae y cyntaf yn adnabyddus er dyddiau cwymp Dagon. Bu agos i'r clefyd hwn ysgubo ymaith holl breswylwyr pump o ddinasoedd y Philistiaid mewn un dydd am iddynt gymmeryd Arch Duw o Ebenezer i Asdod. Y mae y **GRAVEL** drachefn wedi bod yn angeu i filoedd, ac nid oes ond ychydig yn cael myned drwy y byd heb deimlo i ryw raddau oddiwrtho. Dyma y clefyd fu yn angeu i Napoleon III.

Yr oeddem wedi darllen lluoedd o dystiolaethau argraffedig, ac wedi clywed gan gyfeillion personol a chydnabyddion iawer am ddaioni y Pills; a gwn am luoedd yn y wlad hon ac yn America, rhai yn Damascus, yn Rhufain, yn Beyrout, llu mawr yn Paris a thrwy Germany, yn eu cadw yn wastad wrth law, fel TARIANAU rhag ymosodiadau y clefydon rhag-grybwylledig.

Yr oeddem wedi gweled tystiolaeth yr Ynad Williams i ddilysrwydd y tystiolaethau sydd yn cael eu cyhoeddi, a llu ereill na chyhoeddwyd etto. Wedi myned i Hirwaun a chael *interview* â Mr. George, prin y buasai yn deg i mi ymadael heb gael golwg ar y tystiolaethau. Wedi darfod y cysgod-esgus oedd genyf, cyfeiriais at y Pills, ac awgrymais "y gallai fod rhai yn amheu dilysrwydd y tystiolaethau;" wrth reswm, nid oeddwn I fy hunan yn un o'r cyfryw, fel pe tae. Heb ddweyd gair, taflodd o'm blaen glamp o lyfr mawr ar ffurf *scrap album*, a gofynodd i mi edrych a barnu drosof fy hun.

Yr oedd yno lythyrau yn mhob math o law-ysgrif,—o lun traed brain i'r German Text. Llythyrau o bob gwlad,—o China a'r Iwerddon, o San Francisco a Bagillt, o New Zealand a Dolyddelen, o Brestatyn ac Awstralia, o Liverpwl a Gibraltar, o Ysgotland a Llanrwst, o Lundain a Llanbabo, o Lanandras a Solva, o Carlisle ac Eglwyswrw, o Lanelwy a Llanbedr, o Benrhyndeudraeth a Phenrhyn-Gobaith-Da, o Cairo a Cheinewydd, o Gaercystenyn a Chaerfyrddin, o Rufain, Paris, a Naples.

Y mae meddyginiaeth Mr. George o flaen y wlad er ys dros 20 mlynedd, ac y mae eu cymmeriad wedi myned *mor eang â gwareiddiad*, canys bydd ymfudwyr, cenadon, a morwyr yn eu cymmeryd gyda hwynt i bob lle. Dywedwyd i mi gan rifyddwr o fri—pe byddai dyn yn myned ar daith o gylch y ddaear a gollwng *pill* ar ben pob llathen, y byddai raid iddo fyned fwy nag unwaith o gylch y ddaear cyn cael lle i'r *Pills* y mae Mr. George wedi eu troi allan o'i *laboratory* mewn ugain mlynedd!

Y mae y Feddyginiaeth werthfawr hon i'w chael mewn tair ffurf:—

No. 1.—George's Pile and Gravel Pills (Label wen).

No. 2.—George's Gravel Pills (Label las).

No. 3.—George's Pills for the Piles (Label goch).

Ar werth drwy yr holl fyd mewn blychau 1s. 1½c. a 2s. 9c. yr un; drwy y post 1s. 3c. a 3s. yr un. ☞ Family Boxes, yn cynnwys un blychaid o No. 1, un o No. 2, ac un o'r No. 3 Pills, 2s. 9c. yr un. Drwy y post, 3s. Arbedir llawer wrth brynu y blychau mwyaf. Perchenog:—

J. E. George, M.R.P.S., Hirwain, Glam.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] MEHEFIN, 1888. [Rhif 6

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

Y MODDION GOREU I GAEL DIWYGIAD YN YR YSGOL SABBOTHOL.

[Parhad o'r Rhifyn Diweddaf.]

(*Buddugol yn Nghyfarfod Cystadleuol Llwynrhydowen, Chwef.* 24, 1888.)

Gan Mr. J. R. Thomas, Penuwch.

Y mae gan y

RHIENI

etto lawer i'w wneyd er hyrwyddo llwyddiant yr Ysgol Sul. Nid yn unig dylent *anfon* eu plant yno, ond rhoddi esiampl o'u blaen drwy fyned gyda hwynt, a gofalu hefyd fod y gweision a'r morwynion yn cyrchu iddi yn gysson. Mor lluosog yw y teuluoedd Undodaidd sydd yn esgeuluso hyn! Pa nifer o honynt hefyd sydd yn cymmeryd trafferth i hyfforddi eu plant yn yr egwyddorion crefyddol a broffesant eu hunain? Yn rhy gyffredin esgeulusir y ddyledswydd hon hyd y nod gan lawer o rieni duwiol yn ein plith. Mae rhai mor ddifater â gadael i'w plant grwydro yn hollol benrydd i unrhyw addoliad a fynont! Ysywaeth y galwant hyn yn rhyddid crefyddol, ond penrhyddid o'r fath waethaf ydyw. Os ydym o ddifrif yn credu yn ein hegwyddorion crefyddol, ac yn eu gwerthfawrogi, onid ein dyledswydd gyssegredicaf yw argraffu gwirioneddau ein ffydd ar feddyliau ein plant? Os yw y golygiadau a'r egwyddorion crefyddol a broffeswn yn ffordd a gwirioneedd a bywyd i ni, nis gallwn lai nâ'u hystyried felly i'n plant. Rieni anwyl, rhoddwch yr ystyriaeth ddifrifolaf i hyn. Hyfforddwch y plen-

tyn yn mhen ei ffordd, a phan heneiddia, nid ymedy â hi. Mae delw ac esiampl y fam yn argraffedig yn helaeth ar y bychan cyn yr adwaena yr A, B, C. Dysgwch y rhai hyn iddo mor fuan ag y byddo ei feddwl tyner yn ddigon cryf i ymafiyd yn y gorchwyl. Mynwch lyfryn pwrpasol i'w ddysgu i ddarllen. Cynnorthwywch ef, ychydig ar y tro, gan wneyd y gwaith yn fwynhad. Nodwch allan adnodau priodol a hawdd eu deall iddo i'w trysori yn ei gof. Rhydd hyn gyfeiriad crefyddol i'w feddwl, a bydd y cartref, ar yr un pryd, yn fath o *infant school* i'w barotoi ar gyfer yr Ysgol Sabbothol. Mae yn llawn bryd i ni, fel Undodiaid, ddeffroi a cheisio cael rhyw adfywiad yn ein plith, os am i'n henwad crefyddol beidio myned dan warth. Ceisied pob un, gan hyny, ystyried pa beth sydd eisieu ei wneyd. Mae eisieu mwy o hunanaberth, oblegyd gwirfoddol yw y gwaith. Mae pob cymmal o'r greadigaeth yn gweithio. Mae y cyfan sydd ynddi yn llawn *energy*, ac un o freintiau penaf dyn yw y gallu i weithio—y gallu i droi y *potential energy* sydd ynddo yn *actual energy*. "Beth bynag yr ymeifl dy law ynddo, gwna â'th holl egni." Mae *heroes* ein byd wedi anfarwoli eu hunain drwy ymdrech ddi-ildio a di-droi-yn-ol. Mae bywyd yn ymdrech; "*and the fittest only survives.*" Ati, gyfeillion. Rhoddwch eich ymhenyddiau ar waith er dyfeisio rhywbeth i wneyd yr Ysgol Sul yn fwy dyddorol ac attyniadol. Mae yn rhaid i'r meddwl ieuanc nwyfus gael mwy o "*go.*" Gwnewch brawf ar rai o'r pethau canlynol. Gallant fod o ryw les. Darllener papyr bob deufis ar ryw bwnc dyddorol ac addysgiadol, megys "Gweddi," "Y lles o fynychu yr Ysgol Sul yn gysson," "Dechreuad a chynnydd yr Ysgol Sul yn Nghymru," "Llyfrau ag y dylai pawb eu darllen," "Cyfieithad y Beibl i'r Gymraeg," "Dosparthiad y Beibl yn bennodau ac adnodau," &c., &c. Ceisier gan yr ieuainc ysgrifenu ar bapyr (1) ddeg rheswm dros fynychu yr Ysgol Sul yn gysson, (2) deg rheswm dros ddyfod i'r ysgol yn brydlon, (3) deg rheswm dros fyw yn dduwiol, (4) deg rheswm dros fod yn ufudd i'w rhieni, (6) deg rheswm dros beidio tyngu a rhegu, &c. Bydded i'r arolygwyr ddarllen y goreu yn gyhoeddus, a gwobrwyo y buddugwyr. Gwneler hyny bob pythefnos. Etto, arfered y rhieni eu plant i adiodd *(reproduce)* gartref yr oll a allont o'r bregeth ar ol dyfod o'r cwrdd, neu yr hyn oedd yn myned yn mlaen yn y dosparth. Cynnorthwyir hwy drwy hyn i ddyfod yn feddiannol ar daleutau a chymhwysderau i ddyfod yn siaradwyr cyhoeddus. Y *training* syml hwn a enwogodd Syr Robert Peel. Porther y meddwl â digon o amrywiaeth. Darllener llawer o'r Beibl—llyfr y llyfrau. Cadwer cwrdd Beiblaidd gan yr athrawon. Neilldner adegau rheolaidd i ddarllen y Beibl yn y teulu. Darllener ef o'r bron—o'i ddechreu i'w ddiwedd. Rhydd hyn gymhorth i ffurfio meddylddrych cywir am dano yn ei gyssylltiadau rhanol, fel y mae un rhan yn taflu goleuni ar ran arall. Dylid ceisio ei ddeall a'i feistroli fel pob rhyw lyfr arall. Clywn lawer o son am dalu parch a gwarogaeth i'r Beibl, a llawer yw yr amddiffyn iawnffyddol sydd wedi bod arno. Pa sawl Paley sydd wedi bod yn ceisio *propio* i fyny ei anffaeledigrwydd ysprydol? a pha sawl Ingersoll sydd wedi bod yn ceisio dynoethi ei wendidau a'i ddiffygion? Ond ei

wir ysprydoliaeth yw ei allu i ysprydoli cariad yn mhawb a'u darllenont; a'r deyrnged fwyaf a ellir ei thalu iddo yw, ceisio myned i fewn i ddyfnderoedd ei wirioneddau, a'u gwneyd yn rheol ein hymarweddiad. Mae yma foroedd didrai o adgyfnerthion i adfywio ein grasusau a chyflawnder anhyspyddadwy o foddion i feithrin ein dyhëadau a'n hanadliadau mwyaf sanctaidd. Yma y cawn gipolwg ar wahanol gymmeriadau—y naill i'w gochelyd, a'r lleill i'w hefelychu; rhydd i ni syniadau boreuol y Genedl Iuddewig am Dduw, ac am ddyledswyddau crefyddol a moesol dyn. Gafaeler mewn pob mantais i astudio ei ranau hanesyddol a daearyddol, megys darlunleni a llyfrau pennodol ar hyn. Dylai darlunlen o Wlad Canaan gael ei esod i fyny yn amlwg yn mhob capel.

Peth arall sydd yn ddiffygiol iawn yn ein plith yw cadw

YSTADEGAU

o fynychiad yr ysgolheigion. Mewn llawer o'n capelau, nid oes un cyfrif o rif yr ysgol yn cael ei gadw o gwbl. Ceir ereill yn cadw rhywfath o gyfrifon, ond y maent yn aml mor fratiog, fel y gwrthodir eu cyhoeddi am eu bod yn annheilwng o ymddiriedaeth. Dengys y daflen ganlynol pa mor esgeulus y mae rhai o'n capelau wedi bod yn eu cyfrifon y blynyddoedd a aethant heibio. Cymmerwyd hwy allan o wahanol rifynau o'r Ymofynydd.

ENW.	BLYNYDDAU.						
	'66	'70	'71	'82	'83	'84	'85
Llwyn	50	40	40	110	50	90	120
Pantydefaid..	100	80	75	130	144	124	149
Bwlch	53	55	60	69	62	70	63
Capelygroes..	58	85	dim	..	..	59	..
Alltyplaca ..	54	..	34	45	56	71	..
Ciliau	32	30	..	..	..	..	..
Rhydygwin ..	39	37	39	63	64	65	66
Aberdar ...	131	62	69	75	109	121	102
Cwmbach	48	47	52	..	48	49	42
Merthyr	85	69	..	80	80	..	105
Swansea	64	..	..	..	..	..	..
Cwrtnewydd..	..	40	51	..	..	.	..
Cribin	..	55	60	58	45	55	60
Caeronen	..	..	102	54	54	52	55
Caerdydd ...	..	..	..	54	49	56	52
Llanbedr	..	..	..	112	55	50	129
Nottais	..	..	..	76	52	49	47
Trebanos	..	..	..	49	60	50	46
Cefncoed	..	..	..	..	..	..	55

Mae cadw ystadegau mor angenrheidiol, fel mai afreidiol fyddai ceisio rhoddi rhesymau dros beidio eu hesgeuluso. Dylai pob Ysgol Sul gadw ei *summary book*, fel ein hysgolion byrddol. Maent yn foddion i drosglwyddo hanes yr ysgol i'r oesau a ddelont, ac felly, yn safon i'n galluogi i ganfod *at a glance* pa un ai myned yn mlaen neu yn ol yr ydym; ac os cawn fod yr achos yn dirywio yn ein plith, gall y bydd taflu cipolwg ar yr ystadegau hyn yn symbyliad i'n deffroi o'n cysgadrwydd. Dylai yr ychydig ystadegau a geir yn Yr Ymofynydd yn un o'r rhifynau diweddaf beru i bob Undodwr ymofidio yn ei galon o herwydd cyflwr truenus ein hachos, a diau mai felly y bydd. Da genym weled addewid am sylw pellach ar y mater hwn.

Dylai pob athraw (neu rywun yn y dosparth) gadw cyfrif mynychiad ei ysgolheigion am bob Sabboth. Trosglwydder cyfrif y gwahanol ddosparthiadau i lyfr yr ysgrifenydd cyffredinol bob deufis. Gellir gwneyd hyn mewn llai nâ phum' munyd drwy i'r ysgrifenydd alw allan am gyfrif pob dosparth, a'i osod i lawr yn ei lyfr deufisol. Adrodder ef yn nghlywedigaeth yr ysgol y Sabboth cyntaf o'r flwyddyn gan yr ysgrifenydd. Gosoder copi o hono (wedi ei attodi gan nodiadau) i fyny mewn man cyfleus, fel y gallo yr holl aelodau sylwi arno yn ol llaw, er cymharu y cynnydd neu y lleihad.

Wrth ddarllen yr ychydig linellau anmherffaith hyn drosodd, gwelwn ein bod wedi annghofio llawer o bethau ag y carem sylwi arnynt; ond gan eu bod wedi myned yn faith eisoes, gwell gadael ar hyn, gan obeithio y bydd iddynt fod o ryw gymmaint o gymhelliad i ymdrechion mwy egniol o blaid y sefydliad daionus hwn.

YR HEN AMSER GYNT! (Carol 154.)

Mae'n dystaw ganu yn mhob bron
  Gân hoff anwyliaid cu;
Ond nid ynt hwy yn ateb dim
  Er maint y galwn ni.
Hwy dd'ont drwy'r taw i fynwes dyn,
  Fel cynt y gwelwn hwy—
Y dewr, y doeth, y mwyn, a'r pur,
  Er nad ynt yma mwy!

Mae'n anhawdd codi eu beichiau hwy,
  Rai anwyl, dewr, a phur;
Gwnaent hwy yn ddysglaer fywyd oll,
  A lleddfent ei holl gur;
Ond da yw cofio am danynt hwy
  Pan fo'n trallodau'n fawr;
Rho'wn glod i Dduw am danynt oll,
  Er nad ynt yma 'nawr!

Bydd mwy cartrefol y byd draw,
O'u bod hwy yno'n byw;
Eu canlyn ni fydd mor anhawdd,
Nad beth eu tynghed yw;
Nis gallant fod lle nad yw Duw,
Ar unrhyw dir na môr;
Nad beth a ddaw, mae'th gariad Di
Yn para byth, ein Ior!

JOHN W. CHADWICK.

UNDODIAETH YN NGHYMRU.—III.

YN yr erthygl ddiweddaf, soniais fod yr hen dad, Dr. Martineau, wedi addaw darllen papyr ar *organization* o flaen y *conference* a gynnelid yn Leeds yn niwedd Ebrill; ac y mae wedi cyflawnu ei addewid. Dichon fod llawer o'r sawl a ddarllenant y llythyrau hyn eisoes wedi darllen y *report* o'i araeth yn y papyrau; a gobeithio, Mr. Gol., er mwyn y cyfryw o'ch darllenwyr nad ydynt yn medru darllen y iaith fain, y bydd rhywun o'ch gohebwyr ffyddlawn mor garedig a rhoddi braslun o honi yn yr YMOFYNYDD nesaf, ac yn y gobaith y gwneir hyny y gadawaf hi yn ddisylw ar hyn o bryd, gan obeithio allu gwneyd rhyw sylwadau arni yn un o'r rhifynau dyfodol. Ond dymunaf wneyd un sylw yn bresenol. Y mae y Dr. wedi siarad yn gryf yn nghylch yr angenrheidrwydd am fwy o drefn yn ein plith, ac wrth sylwi ar y gymmeradwyaeth gyda yr hon y derbynid ei awgrymiadau, gallem feddwl fod y teimlad hwn yn gyffredin yn mhlith y dorf fawr oedd yn bresenol. Ni wyddys etto beth fydd ffrwythrau yr ymdriniaeth ar y mater hwn; ond gellir dweyd hyn, hyd y nod os na ddeuir i'r un penderfyniad neilldduol, bydd wedi ateb un pwrpas da, sef wedi creu awydd am fwy o gydweithrediad ac ymdrech yn ein plith, yr hyn yn y diwedd a arweinia o bossibl i ryw symmudiad pwysig. Boed felly.

Yn awr, yr wyf yn gadael hyn, ac yn dychwelyd at bwnc y llythyr presenol, sef—(1) Yr angenrheidrwydd am gymdeithas yn ein plith. (2) Amcanion. (3) Y modd y gellid dwyn gweithrediadau y cyfryw yn y blaen. Gwnaf ymdrin â'r pwnc yn y drefn uchod.

I. Yr angenrheidrwydd am gymdeithas. Yn benaf, y mae arnom ei heisieu o herwydd nad oes genym yr un cyfrwng uniongyrchol trwy yr hwn y gellir hyrwyddo blaenfynediad ein hachos. Y mae yn wir fod genym ein cyfarfodydd chwarterol, ychydig o lyfrau, a misolyn at ein gwasanaeth yn awr; ac y mae'r cyfarfodydd chwarterol wedi gwneyd gwaith ardderchog yn ddiamheu i daenu y syniadau a goleddwn, ac y mae y llyfrau sydd wedi eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd, a'r YMOFYNYDD, wedi chwareu eu rhan yn dda, a gobeithio fod cylch helaeth o ddefnyddioldeb yn aros y ddau gyntaf etto, ac y bydd cylchrediad yr

olaf yn myned ar gynnydd. Ond tra yn cydnabod y gwaith ardderchog sydd wedi ei wneyd gan y tri cyfrwng uchod hyd yn awr, nid ydynt yn cyflawnu eu gwaith yn ddigon *direct*, ac y mae eisieu rhywbeth arall atynt i'w cynnorthwyo. Ac o herwydd fy mod yn credu y buasai cymdeithas o'r fath ag wyf ar fedr ei desgrifio yn ddefnyddiol yn y cyfeiriad hwn, yr wyf yn dal y dylid sefydlu un yn ein plith.

II. Amcanion y fath gymdeithas. Y maent yn lluosog—(*a*) I gadw yn fyw a cheisio cryfhau yr eglwysi sydd genym yn barod yn Nghymru. Byddai hwn yn un o'i phrif amcanion. Gallai wneyd hyn trwy annog yr eglwysi hyny sydd heb weinidogion i ddewis rhai, a thrwy roddi cynnorthwy iddynt mewn amryw gyfeiriadau yn y gwaith hwn. (*b*) Y mae amryw o Undodiaid yma a thraw trwy yr holl wlad, y rhai ydynt allan o gyrhaedd un o'n capeli, a'r rhai, pe cawsent y cyfleustra, a wnelent lawer iawn o aberth er mynychu un o honynt. Gallai y gymdeithas fod yn gyfrwng i chwilio y cyfryw rai allan, a phan y ceid ychydig o honynt yn yr un man, i roi annogaeth iddynt i ymffurfio yn gymdeithas. (*c*) I daenu ein hegwyddorion trwy wahanol gyfryngau, trwy wneyd defnydd helaethach o'r wasg, yr hyn sydd wedi ei esgeuluso i raddau gormodol genym hyd yma. Efallai fod amcanion ereill llawn mor bwysig, ond y rhai hyn ydynt y mwyaf pwysig.

III. Y modd y gellid cario ei gweithrediadau yn y blaen. (*a*) Yn gyntaf, gellid galw y gymdeithas yn "Gymdeithas Undodaidd Gymreig." (*b*) Aelodau y cyfryw fyddent y sawl sydd yn dymuno llwyddiant Undodiaeth, ac a gyfranent swm pennodol yn flynyddol at ei gwasanaeth—hyny yw, swllt neu ddau. (*c*) Cerid gwaith y gymdeithas yn mlaen trwy wneyd darpariaethau ar gyfer traddodi darlithiau cenadol mewn gwahanol fanau, trwy gyhoeddi, gwerthu, a dosparthu traethodau a llyfrau, a thrwy roddi cynnorthwy arianol i achosion gweiniaid. (*d*) Swyddogion y gymdeithas fyddent llywydd, is-lywyddion, trysorydd, ysgrifenydd, a phwyllgor cyffredinol, yr hwn a wneid i fyny o bersonau wedi eu hethol gan ein heglwysi. Gallai y pwyllgor gyfarfod yn awr ac eilwaith ar ryw amserau pennodedig, mewn man canolog, i ymdrin â gwahanol faterion, ac i ymgynghori yn nghylch y dull a'r moddion goreu i hyrwyddo lledaeniaid ein hachos. Gellid cynnal cyfarfodydd blynyddol y gymdeithas ar ryw adeg neillduol, pryd y gellid ymdrin â'r gwahanol faterion a ddygid gerbron. Nid wyf yn cynnwys cynllun anymarferol, o herwydd yr wyf wedi seilio y nodiadau hyn ar reolau y *Scottish Association*, yr hon a sefydlwyd oddeutu 28 mlynedd yn ol; ac y mae y gwaith ardderchog sydd wedi, ac yn cael ei wneyd gan y gymdeithas uchod yn brawf o'i defnyddioldeb mawr. Nid oedd hon ar y dechreu ond rhyw fudiad gwan ac eiddil; ond erbyn heddyw, y mae wedi tyfu i fod yn sefydliad cadarn. Ac y mae y ffaith hon yn dangos i ni na ddylasem edrych i lawr ar ddydd y pethau bychain, ac na ddylasem wangaloni yn ngwyneb anhâwsderau a gwrthwynebiadau. Ac er y dichon i'r mudiad hwn yr wyf wedi gynnyg i sylw fod yn wan ar y dechreu, os y bydd yn ateb rhyw ddyben da, y mae yn sicr o dyfu a lledu. Cofiwn

eiriau Iesu Grist, "Pe bai genych ffydd megys gronyn o had mwstard, chwi a ddywedech wrth y mynydd hwn, symmud oddiyma draw, ac efe a symmudai; ac ni bydd dim yn anmhossibl i chwi."

Dichon i rywun ofyn, Pa le mae yr arian i wneyd yr holl waith hwn? Y mae hwn, yn wir, yn fater pwysig, ac os nad oes gobaith am arian, ni fuasai ein hymgais i sefydlu cymdeithas ond ofer. Ond gadewch i ni gael gweled pa obeithion sydd yn y cyfeiriad hwn. (1) Yn gyntaf, pa faint yn debygol fuasai y swm a allesid ei gael trwy gyfrwng aelodaeth y gymdeithas. Y mae genym oddeutu ugain o eglwysi, mwy neu lai, cryf yn bresenol yn Nghymru. Gadawer y buasai chwech, ar gyfartaledd, o bob eglwys yn barod i danysgrifio—dyweder dau swllt y flwyddyn—at wasanaeth y gymdeithas, buasai hyn yn cyrhaedd y swm o £12. Y mae genym eglwysi ereill llai cryf, ac y mae rhai cyfeillion yn dal cyssylltiad â'r rhai hyn a fyddent yn barod i wneyd eu rhan; fel, a chyfrif y cyfan, yr wyf yn teimlo yn sicr y gellid cael £20 o'r ffynnonell hon. Nid wyf yn cymmeryd y capeli Seisnig i ystyriaeth yn y cyfrif uchod. (2). Wrth edrych dros *report* y *British & Foreign*, yr wyf yn cael fod cyfanswm y casgliadau cynnulleidfaol a wnawd yn Nghymru yn ystod 1887 yn agos i £19, yr hyn oedd yn agos i £7 yn rhagor na'r cyfanswm am 1886. Y mae yn anhawdd gwybod pa le y bydd y pen draw, os bydd y casgliadau blynyddol yn cynnyddu yn ol y *rate* uchod. A ydyw yn ormod i ni ddysgwyl y buasai cyfanswm y casgliadau yn gymmaint arall, pe y buasent yn cael eu defnyddio yn Nghymru, yn lle eu danfon i Lundain. Y mae yn wir fod ein rhwymedigaeth i'r *British & Foreign* yn fawr. Yr ydym wedi ei phrofi yn gyfeilles mewn angen ar lawer pryd, ond credaf na fuasai neb yn fwy parod na'r cyfeillion yn Llundain i wneyd unrhyw beth i'n cynnorthwyo i ledaenu ein hachos, ac yr wyf yn teimlo yn sicr y buasai yn well ganddynt adael hyny o arian a gasglwn i'w defnyddio genym ni ein hunain, os y cawsent allan y buasent yn debyg o wneyd rhyw ddiaioni. Yr ydys wedi cael allan y buasai cyfanswm y casgliadau o bob ffynnonell yn agos i £40, a phwy a wyr faint o waith a ellid ei wneyd â'r swm hwn.

Yn awr, cyn terfynu y llith bresenol, a ydyw yn ormod i mi geisio gan y sawl a broffesant eu hunain yn gyfeillion i'r achos Undodaidd yn Nghymru i roddi yr ystyriaeth ddwysaf i'r mater hwn? Onid yw yn ddichonadwy i ni ddangos rhyw ychydig yn fwy o frwdfrydedd dros ein hachos? Dywed rhai cyfeillion weithiau nad oes eisieu i ni mwyach wneyd llawer yn rhagor na dal i fyny yr achosion sydd genym yn barod, gan fod ein gwaith yn cael ei wneyd gan enwadau ereill o'n hamgylch. Ac y mae hyn yn eithaf da; y mae yn burion ein bod yn ymdrechu cadw ein hachosion presenol rhag suddo; ac y mae yn galondid i ni feddwl fod ein syniadau yn gweithio eu ffordd yn y blaen yn mhlith enwadau ereill. Ond, gyfeillion, bydd yn rhaid i bob un o honom ni roddi cyfrif drosto ei hun, ac ni fydd yr esgusawd fod y gwaith a ddylasai fod wedi cael ei wneyd genym ni wedi ei wneyd gan ereill o un gwerth yn y pen draw. Ac os ydym ni yn credu fod genym wirioneddau, ac fod y gwirioneddau hyn yn bwysig, y mae llais dyled-

swydd ac esiampl ardderchog Iesu Grist, yr hwn a gyssegrodd ei fywyd i fyned oddiamgylch i gyhoeddi y gwirionedd a ddatguddiwyd iddo gan y Tad, yn galw yn ddifrifol arnom ni heddyw i fyned a gwneuthur fel y gwnaeth yntau. A. B.

A FU GOLLEDIG AC A GAFWYD.

Yr oedd tyrfa fawr gymmysgedig wedi ymgasglu i wrando ar bregethwr dyngarol, yr hwn oedd wedi ei anfon i draddodi y genadwri wrth y tlawd a'r camsyniol. Yr oedd rhai dynion *respectable* yno, ond rhagor o wyr a gwragedd syrthiedig ag oeddent yn newynu am fara'r bywyd.

Yr oedd llais y siaradwr yn llawn teimlad tyner, oblegyd llifai o galon gariadlawn a thosturiol. Siaradai wrthynt megys wrth frodyr a chwiorydd. Dywedai wrthynt am eu Tad yn y nefoedd, ac am eu hetifeddiaeth fry. Carai oedi ar werth mawr yr enaid dynol, a chariad yr Iesu a fu farw drostynt. Gallent felldithio Duw, ond nis gallent newid ei gariad; gallent ymguddio yn ymgyrchfanau gwarth a drygioni, ond byddai i'r Iachawdwr bendigedig eu cael allan. O! na wnaent droi o lwybrau eu pechod a'u ffolineb, a charu ac ufuddhau i'r Duw hwnw! Gwenai rhai o lawenydd; wylai ereill, canys yr oedd yr hen, hen hanes, yn hen ac etto'n newydd, yn goglais pob calon.

Safai gwraig druan, bechadurus, wrth ddrws yr ystafell. Teimlai yn annheilwng i fyned i fewn ac eistedd gyda'r dorf, ond clywai eiriau y bregeth, ac ymdoddai holl galedwch a chwerwder ei henaid, a syrthiai bendithion megys mantell arni. Yr oedd amser maith, maith, er pan glywodd am yr Iesu, ond yr oedd yn un o bethau hyfryd ei phlentyndod. Yr oedd wedi troedio llwybr pechod a gwyddai am ei warth yn well nag a allai neb ddweyd wrthi; ac O! a oedd modd gadael y llwybr hwnw a chael gafael ar nefoedd o burdeb a thangnefedd? A oedd hi o unrhyw werth yn ngolwg yr Hollalluog? A wnai yr Iesu ei hachub hi?

Cuddiodd ei gwyneb tra y crynai ei chorff gan ocheneidiau dirdynol. Ar y foment hono daeth y bobl yn dyrau allan, a chlywai hi lais caredig y pregethwr ar ei phwys. Edrychodd i fyny at ei wyneb mwyn; a chan wylo fwy nag erioed, aeth allan i'r tywyllwch.

Cododd yr haul boreu dranoeth yn ddysglaer, gan ddwyn dydd o dangnefedd a llawenydd i lawer o galonau, a dydd o boen ac ing i lawer rhagor. Dechreuai dyddiau'r Hydref oeri, a chynneuai tân siriol mewn ystafell glyd yn un o dai y dref. Eisteddai hen wr penwyn yn ngoleu'r tân, a'i lygaid yn nghau, fel pe b'ae'n synfyfyrio. Gerllaw iddo daliai mam eneth fechan, yr hon oedd yn ddoniol yn ei baldordd blentynaidd. Un ieuanc oedd y fam, a theg oedd y plentyn.

"Mae rhyw fenyw yn y gegin yn 'mofyn siarad a ch'i, mam," ebai Beti'r forwyn, gan agor y drws yn drwsgl.

"Pwy yw hi, a beth mae'n 'mofyn?" meddai'r foneddiges, gan godi ei llygaid oddiwrth wyneb ei phlentyn ag oedd yn brif wrthddrych ei serch mwyaf hoffus.

"Nansi'r Glo yw hi, ac mae'n fenyw ddrwg iawn—ddim yn deilwng i siarad â chwi. Cynnygiais iddi damaid i fwyta, ond 'wnai hyny ddim o'r tro; y mae am eich gweled chwi, ac am gael gwaith i'w wneyd."

"Dywedwch wrthi nad oes gen' I ddim gwaith i'w gael," ebai'r foneddiges gyda gradd o flinder yn ei llais.

"Beth mae'r fenyw druan yn 'mofyn?" meddai'r boneddwr, gan godi ei ben yn sydyn.

"Mae'n 'mofyn gwaith, 'nhad, a 'does gen' I ddim iddi."

"Ddim cymmaint a gair o gysur ac annogaeth, Sarah?"

"Ond fe ddywed Beti mai menyw ddrwg yw hi," ebai Mrs. Davies dipyn yn swta.

"Er hyny, mae yn chwaer i chwi a minau: nid yw ei diraddiad yn gwneyd y rhwymyn yn llai tyn."

"Ond feiddia i ddim ymddiried i'r fath bersonau, ac 'rwy'n arswydo rhag gwneyd dim a nhw."

Neidiodd dagrau i lygaid yr hen wr wrth ddweyd, "Duw a dosturio wrth y fenyw, druan! y sawl sydd debyg iddi a helpant i'w thynu i lawr, a chilia'r da rhagddi rhag ofn cael eu halogi."

"Nhad, 'rwy'n feius; mi wela' nawr; mi a'i galwaf hi 'nol, ac helpaf hi, os gallaf rywfodd."

A chyda'r gair, gosododd Mrs. Davies ei phlentyn ar y llawr, rhedodd allan; ond yr oedd yn rhy ddiweddar. Yr oedd Nansi'r Glo wedi gadael y ty, ac yn ei siomiant, mwmialai lid yn erbyn pawb.

Druan o Nansi! yn ddigartref, yn friw ei chalon, ac wedi ei handwyo gan bechod; ac etto, yr oedd holl elfenau gwir wraig yn ei bodolaeth—hedyn yr angel i fod! Trueni fod y cyfryw briodoleddau nefol yn cael eu gwyrdroi gymmaint, a'u llethu. Ond diolch i'r Hwn sydd wedi gosod ei ddelw yn yr enaid dynol, nis gallant gael eu dinystrio yn hollol.

Yn gynnar mewn bywyd darfu i Nansi'r Glo gael ei thaflu allan i'r byd oer ac hunangar. Heb dywysiad egwyddor, na dyogelwch cartref a chyfeillion, hi a syrthiodd yn fuan yn ysglyfaeth i brofedigaeth. Am flynyddau, bu yn gydymaith i wyr a gwragedd gwael eu cymmeriad, ac yn ddiweddar yr oedd wedi syrthio yn is fyth, fel nad oedd ganddi le, er mor wael, i'w alw'n gartref.

Ond trwy ddamwain—ïe, yn Rhagluniaethol—clywodd eiriau annogaethol y pregethwr, a deffrodd i'r teimlad o'i chyflwr diraddiol a thruenus. Yr oedd bron yn wallgof y boreu hwnw, ond tywynai rhywbeth tebyg i obaith yn nhywyllwch ei henaid. A oedd hi'n bossibl, fel y dywedai y gweinidog, iddi daflu i lawr y baich hwnw o wae a phechod, a bod mewn heddwch â'i hunan ac â Duw?

Difäai newyn ei hymysgaroedd, tra yr ymlwybrai yn wyllt trwy yr heolydd, yn ddiofal gan y dorf ag oedd yn fawr ei dwndwr yn mhob mân, a thremiai i fewn drwy y cartrefi tawel, ac edrychai ar y tadau

a'r mamau hapus, a'r plant diniwed, nes yr oedd angen ei chalon yn fwy dirdynol nâ newyn y corff.

Ceisiai am waith i'w chadw rhag newyn a phechod, ond teflid hi yn oerllyd ymaith oddiwrth bob drws. Pan hyspysodd morwyn Mrs. Davies hi, gyda edrychiad o ddirmyg ar ei gwyneb gonest, nad oedd gan ei meistres waith i'w bath hi, ymgaledodd ei chalon mewn chwerwder a digter.

Cerddodd yn lladradaidd gylch y ty, ac edrychodd i fewn trwy y ffenestr. Yr oedd yr hen wr wedi gadael yr ystafell, ond yr oedd y fam a'r plentyn yno. Y fam yn gwnio mewn dwysfyfyrdod, a'r plentyn yn chwareu â'i theganau. Edrychai Nansi ar yr olygfa dawel gyda'i llygaid ar dán a'i dyrnau yn nghau. Nid oedd yn henach na'r foneddiges a eisteddai yno, mor gyfoethog mewn cariad, ac mor ddyogel mewn rhinwedd a heddwch. Etto, y fath agendor oedd yn eu gwahanu! Yr oedd pobpeth gan un—dim gan y llall; ac o'i holl gyflawnder—o'r cyfan ag oedd yn gwneyd ei bywyd yn werthfawr, nid oedd gan y fenyw ddedwydd hyd y nod air o dosturi tuag at yr un llai ffodus.

Yn min yr hwyr, safai wrth y bont sydd yn croesi yr afon. Clywai swn y dw'r hyd y nod uwchlaw twrf masnachol y dref. Yr oedd ar wallgofi, a meddyliodd am daflu ei hunan i'r dyfroedd rhyferthwyol, a chael gorphwys. Yr oedd yr oll yn dawel o'i hamgylch, etto, tybiai y gwnai aros hyd nes yr elai yr ychydig deithwyr allan o'r golwg. Ymgiliodd i'r naill ochr dan gysgod adeilad uchel i ddysgwyl am ei chyfle. Yn un cornel, wedi ymlusgo yno i gysgodi, ocheneidiai plentyn bach. Pwy a'i pia? Sut y daeth yno? Cofiodd Nansi ei bod wedi gweled y wisg brydferth hona, a'r modrwyau euraidd hyny o'r blaen. Y plentyn a welodd yn ei gartref tawel ychydig oriau cyn hyny oedd—eilun y wraig y darfu iddi hi gashau a melldithio. Yr oedd yr un fechan wedi crwydro o gartref, a digon tebyg fod ei rhieni yn chwilio am dani mewn pryder dwys. Llanwodd rhyw orfoledd creulon ei mynwes wrth godi yr un fechan yn ei breichiau.

"'Cha nhw byth ei gweled mwy," ebai yn uchel; "caiff gysgu gen' I yn ngwaelod yr afon. Darfu i'r fam hono fy scornio, ac yn awr, 'rwy'n gwasgu ei baban at fy mynwes! Oni wnai hi siarad yn deg wrthyf yn awr? Oni wnai hi fyned ar ei gliniau, a gofyn am drugaredd? Ond 'chaiff hi ddim trugaredd, mwy nag y cefais I drugaredd ganddi hi."

"Rwy'n ffaelu ffeindio mam: a wnewch chwi fy arwain adref?' ebai'r plentyn mewn tôn ymbilgar.

Siglodd Nansi ei phen yn araf.

"Mi wn y gwnewch arwain Annie fach tua thref," a thafledd y plentyn prydferth ei breichiau am ei gwddf, a gwasgodd ei gwefusau bychain ar ei bochau rhychiog.

Darfu i'r cofleidiad, y cusan, a'r anadl felus ymgymmysgu a'i hanadl hi, a newid ei bwriad creulon mewn moment. Rhwymodd Nansi yr eneth yn ei mantell fratiog, a brysiodd heb aros eiliad, er ei bod bron diffygio o newyn.

Gallwn ddirnad teimladau cynhyrfus y rhieni wrth feddwl fod y plentyn oedd mor anwyl ganddynt wedi myned ar goll. Danfonwyd y criwr allan, a gwnawd pob ymgais i gael gafael ynddi, ond y cyfan yn ofer. Ond tra yr eisteddai y fam yn ddigysur yn ei hystafell, bron ymddyrysu yn ei synwyrau, clywid trwst traed yn ymddynesu at y ty, ac ymgripiodd Nansi i fewn gyda'i llwyth gwerthfawr, a syrthiodd i lawr mewn llewyg.

"Y nefoedd a'ch bendithio am ddwyn fy mhlentyn adref! Pa le y cawsoch hi?" ebai Mrs. Davies wrth Nansi wedi iddi dd'od at ei hun.

"Mi a'i cefais wrth y bont, yn mhell iawn oddiyma. Mi a wyddwn mai chwi a'i piodd, ac mi a'i dygais adref, er i chwi fy nanfon i ffwrdd boreu heddyw am fy mod yn rhy ddrwg i chwi siarad â mi. Ni allwn wneyd niwed i'r plentyn, er y buasai yn well gen I eich melldithio nâ'ch bendithio chwi—ei mam."

"A yw yn bossibl? Ai chwi yw'r wraig a alwodd yma heddyw? Maddeuwch i mi, a Duw a faddeuo i mi hefyd," ebai Mrs. Davies, gan wasgu llaw Nansi yn wresog.

Yna, daeth y tad a'r tadcu i fewn yn drist eu hyspryd, ond gwelent fod y trysor colledig y buont yn chwilio am dani yn ofer yn ddyogel yn mreichiau ei mam.

Yr oedd yn adeg o lawenydd, ac ymdoddai calon Nansi, a daeth niwl o flaen ei llygaid wrth weled yr un fechan yn cael ei gwasgu yn awr at fynwes un, ac yna at fynwes arall. Ond ciliai Nansi rhag eu geiriau calonog a diolchgar. Hi adwaenai yr hen wr penllwyd: efe oedd y gweinidog ag oedd ei eiriau wedi ei chyffroi hi gymmaint. Yr oedd mor odidog a dyrchafedig yn ei golwg, fel y teimlai ei hun yn annheilwng i anadlu yr un awyr ag ef. Tynodd ei mantell ati, a chododd i ymadael.

"Peidiwch myn'd 'nawr," ebai Mrs. Davies. "Edrychwch arni, 'nhad: hi yw yr un a anfonais i ffwrdd heddyw. Onid yw wedi talu da am ddrwg?"

"Duw a'ch bendithio, wraig anwyl!" a chydiodd yr hen wr yn ei llaw, ac edrychodd yn garedig yn ei gwyneb.

Crynai Nansi, a llefai, "Nid wyf yn dda: 'rwy'n ddrwg iawn—mor ddrwg, fel nad oes gen I gyfaill yn y byd, na lle i'w alw yn gartref.'

"Druan tlawd; caiff hwn fod yn gartref i chwi; byddwn ni yn gyfeillion i chwi, ac helpwn chwi i wneyd daioni."

O hyd edrychai y wraig anffodus i wyneb tyner yr hen wr. "Mi a'ch clywais yn pregethu neithiwr, a meddyliais fod Duw wedi eich anfon i'm bachub. Ond heddyw yr wyf wedi bod mewn anobaith; buaswn wedi boddi oni b'ai i mi gael gafael yn y plentyn yn llefain am gartref."

Wrth weled y fath gydymdeimlad yn cael ei estyn ati hi ag oedd wedi ei gwrthod a'i diystyru bron gan bawb, plygodd Nansi edifeiriol ei phen ac wylai fel pe b'ai ffynnon ei dagrau wedi ei dadselio.

Yna, anfonodd y tad genad i hyspysu yr awdurdodau fod y plentyn wedi ei gael, ac yn fuan, clywid llais uchel, soniarus, y gwyliedydd yn cyhoeddi y newyddion da—"Mae'r plentyn ar gael, a'r oll yn dda!

mae'r plentyn ar gael, a'r oll yn dda!" Wrth glywed y geiriau, gwasgai y rhieni y fechan yn agosach at eu calonau, a diolchent am fod y trysor wedi ei gael.

Ond clywai yr hen weinidog yn y gri orfoleddus ystyr ysprydol ag oedd yn llawn balm iddo. Llawenychai gyda'r angylion am un pechadur edifeiriol, a murmurai, "Dad o'r Nef, mae dy blentyn ar gael, ac mae'r oll yn dda!"

BYRGOFION AM ENWOGION CYMREIG.

Gosodir y flwyddyn 1662 i lawr fel yr un a ddarfu, mewn modd arbenig, roddi bywyd a chychwyniad newydd i Annghydffurfiaeth. Dyna'r flwyddyn y pasiwyd Deddf Unffurfiaeth—y ddeddf i orfodi pawb i broffesu eu bod yn credu credoau ystrydebedig y wladwriaeth—y flwyddyn y darfu i 2,000 o offeiriaid roddi i fyny eu heglwysi a'u bywioliaethau yn hytrach nâ phrofi yn anffyddlon i'w cydwybodau drwy broffesu yr hyn nid oeddynt yn ei gredu—y flwyddyn yr amddifadwyd yr Eglwys Wladol o'i hasgwrn cefn moesol. Un o'r ddwy fil hyn oedd

Rees Powell, yr hwn a drowyd allan o Eglwys Llanbedr-pont-Stephan. Ni wyddys pa hyd y bu efe ar faes Annghydffurfiaeth, na pha amgylchiadau anorfod a'i gyrasant yn ol i freichiau y fam-eglwys. Efe yn debyg a gychwynodd eglwys y Cilgwyn, ac efe hefyd ddechreuodd gadw y llyfr eglwys yno, yr hwn, wrth bob tebyg, yw y mwyaf gwerthfawr o'i fath yn Nghymru. Trueni na fuasid yn gwybod mwy am y llyfr hwn. Paham na wnelai rhai o'r Cardïaid fwrw golwg drosto? Gwnelai un o broffeswyr ieuainc Coleg Llanbedr wasanaeth i'w wlad pe cymmerai mewn llaw i edrych at hwn. Deallwn fod cyfran Rees Powell o hono yn Lladin. Byddai yn ddyddorol gwybod beth ydyw yr *entries* Lladin—pa bryd y gwnaethpwyd y cyntaf, pa bryd yr olaf. Helpiai hyny i wybod pa bryd y dychwelodd Rees Powell at y fam-eglwys.

Morgan Howell oedd bregethwr enwog yn Sir Aberteifi. Ganwyd ef yn Bettws Bledrws, a threuliodd ei oes yno. Pan fu Walter Cradock ar daith drwy y sir, dywedir fod boneddwr o'r gymmydogaeth wedi dyfod i'r cwrdd gyda'r dyben o rwystro a gwawdio. Yr oedd Cradock ar fedr pregethu mewn cae yn yr awyr agored, a daeth Morgan Howell yno gyda phlaid y bêl droed, ac aeth mor bell yn ei ryfyg â cheisio gyru'r bêl ar ei draws; ond fe'i rhwystrwyd, a syrthiodd nes niweidio ei hunan. Cafodd, fel hyn, ei orfodi i wrando pregeth a fu yn foddion troedigaeth iddo. Derbyniodd Cradock i'w dy, a gorchymynodd ef i wneuthur ei dy ef yn gartref pa bryd bynag y deuai i'r gymmydogaeth. Ymunodd ag eglwys y Cilgwyn yn 1655. Yr oedd yn henadur athrawiaethol yno yn 1694. Tebyg iddo farw yn fuan ar ol hyny.

JOHN EVANS oedd enedigol o Sir Aberteifi. Dywedir ei fod, fel dyn ieuanc, yn wyllt iawn, ond iddo glywed pregeth un prydnawn Sul â'i gwnaeth yn ddyn newydd hollol. Galwyd ef yn fuan wedi hyny i'r weinidogaeth, ac ordeiniwyd ef gan y Presbyteriaid. Dywed Griffith Morgan, offeiriad a fwriwyd allan o Fangor a Henllan yn 1650, fod John Evans, crydd a dyn anllythyrenog, wedi gwasanaethu yn yr eglwysi hyny am dair blynedd. Yr oedd Evans yn bregethwr diwyd, a choronwyd ei lafur â llwyddiant mawr. Gwasanaethodd y gynnulleidfa yn Nghellan am rai blynyddau. Cynnygiodd Dafydd Llwyd Gwyn bersoniaeth werthfawr iddo, ond gwrthododd hi. Tybir iddo farw yn fuan ar ol 1662 (*b*).

DAVID JONES, A.C.—Nid ydys yn sicr pa un ai o Lanbadarn *Fawr* neu Lanbadarn *Odwyn* y trowyd ef allan—mwyaf tebyg yr olaf. Derbyniodd ei addysg yn Rhydychain, lle y derbyniwyd ef yn fyfyriwr Tachwedd 10, 1654. Desgrifir ef fel "a man of good learning; a plain and successful preacher, and ordained by presbyters. When he was ejected, he maintained himself and family by keeping a grammar school, preaching as he had opportunity, for which he was several times in trouble. He died of consumption with a joyful hope and steady trust in God." Yn 1675 yr oedd yn byw yn Mhlwyf Penbryn, a bu yn gwasanaethu yn y Cilgwyn a'r eglwysi cyssylltiol hyd tua'r flwyddyn 1694. Ni wyddys pryd y bu farw. Dywed Gwynionydd, ond heb roddi ei awdurdod, iddo farw yn 1700. Ychwanega fod lle o'r enw *College* yn Mhlwyf Penbryn wedi cael ei enw efallai oddiwrth ei ysgol ef.

EVAN HUGHES, a fwriwyd allan o Eglwys Llandyfriog. Ganwyd ef yn Sir Aberteifi, ac ordeiniwyd ef gan y Presbyteriaid. Yr oedd yn bregethwr serchog, ac yn ddefnyddiol i lawer. Cwrddodd â llawer o anhawsderau a phrofedigaethau; ond yr oedd ei amynedd yn deilwng o efelychiad. Enwir ef fel "teaching elder" yn eglwysi y Cilgwyn a Chaeronen, &c. Trwyddedwyd ef yn y geiriau hyn:—"Evan Hughes at the house of David Hughes, Cellan." Barna rhai ei fod yn gefnder i'r mwy enwog Stephen Hughes a fwriwyd allan o Meidrym.

JOHN HANMER oedd enedigol o Sir Faesyfed. Cyfeirir ato gan Dr. Walker fel pregethwr teithiol yn Siroedd Maesyfed a Brycheiniog. Wedi ei droad allan, gwasanaethodd gynnulleidfa Cellan gyda gostyngeiddrwydd a llwyddiant am lawer o flynyddoedd. Cwrddodd â llawer o drallodau, a dychwelodd i'w wlad ei hun. Pregethodd hyd y gallai, a bu fyw i hen oedran.

JOHN JONES, Llwynrhys.—Tybir ei fod yn frawd i David Jones, Penbryn. Fe 'i ganwyd 1640, bu farw Gorphenaf 3, 1722. Priododd Margad, merch Mr. Edwards, Dery Odwyn, yn 1669, yr hon a fu farw Mai 23, 1709,* yn 69 oed, ac yn y 40fed mlwydd o'i phriodas. Bu iddo bedwar mab ac wyth merch. Y meibion oeddynt Samuel, Jenkin, David, a John. Nid oes dim hanes yn aros am John. Cyrhaeddodd

---

* Gwall argraff yw 1700 gan Gwynionydd.

y tri ereill radd o enwogrwydd; ond ei fod erbyn heddyw, i raddau, wedi myned i'r cysgod. Dechreuodd John Jones bregethu yn ifanc, os dechreuodd, fel y tybia rhai, tua 1662. Cawn ef yn cael ei ddesgrifio fel "John Jones, elder elect," yn 1672. Yr oedd ei dy ef yn un o'r rhai cyntaf a drwyddedwyd ar gyfer gwasanaeth Ymneillduol yn Nghymru, ac yr oedd efe ei hun yn ffigwr mawr yn Ymneillduaeth ei oes. Priododd David Rees, Cilgell (tadcu y David Rees presenol) ag Elizabeth, merch *Anne*, merch Elizabeth, merch John Jones, Llwynrhys; a gwr Sarah, merch Anne, oedd Daniel Jones, Coedgleision. Bu farw y David Rees uchod Mai 15, 1821, yn 72 oed; ac Elizabeth, ei wraig, Hydref 31, 1783, yn 35 oed. Claddwyd hwy yn mynwent Eglwys Cellan.

David Edwards.—Yr oedd hwn yn fab Dery Odwyn ac yn gefnder i blant John Jones, Llwynrhys. Tybia Gwynionydd ei fod, fel ei gefnderwyr, wedi cael addysg dda. Urddwyd ef yn Nghaeronen Hydref, 1688. Cawn ei enw yn gyssylltiedig ag eiddo Jenkin Jones a Philip Pugh yn "ystadegau" y Dr. John Evans, fel gweinidog y Cilgwyn a phump neu chwe' lle ereill, gyda chyfartaledd o fil o wrandawyr, yn yr oll o'r lleoedd dybygwn. Dywedir iddo bregethu 36 mlynedd. Yn ol Dr. Rees, yr oedd yn ysgolhaig rhagorol ac yn bregethwr da." "Bu ei weddw, Jane Bowen o Hwlffordd, fyw lawer o flynyddoedd ar ei ol ef. Yn Nghaerfyrddin y bu farw" (*a*).

David Jenkins.—Urddwyd ef Mehefin, 1708, yn weinidog yn benaf yn Crugymaen, ond i gymmeryd rhan yn holl gylch y weinidogaeth yn y Cilgwyn, Abermeurig, Cilian, &c.

Evan Davies a urddwyd i fod yn gynnorthwywr i Phillip Pugh yn y Cilgwyn, a lleoedd ereill, Ebrill 13, 1726. Yr oedd ar y pryd yn hanner cant oed. Tebygol ei fod yn bregethwr cynnorthwyol flynyddoedd cyn hyny. Bu farw Rhagfyr 10, 1747, yn 71 oed.

Philip Pugh.—Y gwr enwog hwn a anwyd tua chymmydogaeth Llangybi neu Landdewi Brefi, yn 1679. Deilliai o deulu cyfoethog, a derbyniodd ei addysg yn athrofa Samuel Jones, M.A., Brynllywarch. Urddwyd ef Hydref, 1709, i gynnorthwyo yn y Cilgwyn a'r capeli cyssylltiol. Rhwng 1709 a 1760, bedyddiodd 680 o fabanod. Bu farw Gorphenaf 12, 1760, a chladdwyd ef yn Mynwent Llanddewi Brefi ar y 15fed. (Dyddiadur Timothy Davies). Tebyg iawn mai wyr iddo oedd Philip Pugh, Tyglyn, ac nid mab.

Timothy Davies.—Ganwyd ef efallai yn ardal Cellan, a bu farw yn 1771, Mai 29ain, meddai Dr. Rees, Abertawe; ond y mae Jonathan, ei fab, wedi ysgrifenu yn Nyddiadur ei dad fel hyn:—"My dear Father dyed September 28, and was buried October 3, in 1771, being 60 years of age." Ac mewn man arall, fel hyn:—"My dear Father died Sept. 30, 1771—was buried October 4, at Kellan." Yr wyf yn meddwl ei fod yn fyfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin yn amser Mr. Perrott. Dechreuodd bregethu yn 1733, ac urddwyd ef i gynnorthwyo Mr. Pugh, Mai 26, 1737. Priodwyd ef yn eglwys blwyfol Llangeitho gan Mr. John Rowlands, y person, Mehefin 19, 1740. (Gweler Ymofynydd). Dywed Dr. Rees mai merch Blaenau Cellan

oedd ei wraig, a dywed Gwyrosydd mai Sarah, merch ieuaf Jenkin Jones, Llwynrhys, oedd. Dywedir hefyd mai merch y Glyn oedd, ac yr wyf yn gwybod mai yn Blaenau Cellan y ganwyd plant Timothy—Sarah yn 1741, Jonathan 1743, David 1746, Mary 1748, Evan 1752; yn Blaenau Cellan y bedyddiwyd y rhai hyn i gyd gan Mr. Pugh; ond Rachel, yr hon a anwyd Gorph. 16, 1755, a fedyddiwyd ganddo yn Felindre. Bu farw Mrs. Davies Gorph. 19, 1755. Yr wyf yn barnu fod Peter Davies yn talu rent am y Glyn i Timothy Davies.

(*a*) *Hanes Eglwysi Annybynol.*
(*b*) Rees's *Hist. of Noncon.*
(*c*) *Enwogion Ceredigion*, gan Gwynionydd.
(*d*) *Enwogion Sir Aberteifi*, gan Ioan Glan Menai.
(*e*) Dyddiadur y Parch. Timothy Davies, Caeronen.

PRIF GADAIR COLEG CAERFYRDDIN.

Mae amryw ysgrifau ar y testyn uchod wedi ymddangos eisoes yn yr Ymofynydd a'r *Celt*, ac efallai mewn cyhoeddiadau ereill, ond yn unig nad ydwyf fi wedi bod mor ffodus a'u gweled. Rhoddodd Mr. James ei enw priodol wrth ei ysgrif, ac nis gallasai yn amgen dan yr amgylchiadau. Gwnaeth Dr. Pan Jones yr un peth yn y *Celt;* ond ymguddiodd tri o ohebwyr yr Ymofynydd yn nghysgod ffugenwau, sef Ne Sutor, Vindex, a Cardi. Paham y gwnaethant hyn, nis gwn; ond meddyliwyf mai doethach fuasai i'r tri hyn hefyd ysgrifenu dan neu uwch eu henwau priodol. Mae y pwnc a drinir yn bwysig, ac o ddyddordeb cyffredinol, a buasai ysgrifau y tri gwr galluog uchod yn fwy grymus ac effeithiol pe heb enwau ffugiol danynt. O leiaf, dyna fy marn I. Mae y clod sydd ddyledus am ysgrif y Cardi yn cael ei roddi gan lawer i mi, a minau yn anhaeddiannol o hono; a'r gwirionedd yw, ni ysgrifenais I air na llythyren ar y mater cyn yn awr. Llawnodais y *protest*, fel ereill o'm cydweinidogion oedd yn bresenol yn y Cyfarfod Nadolig yn Pantdefaid, ac fel cadeirydd y Gynnadledd, anfonais ef i fyny i Mr. Marshall i'w osod o flaen y Bwrdd Presbyteraidd yn Llundain, pan y byddai yn cyfarfod, a gwnaethum hyn heb feddwl llai na byddai boneddigion y Bwrdd yn cydnabod ei ddeirbyniad yn fwy boneddigaidd, hyd y nod pe gomeddent ein cais. Gwnaethum yr un peth â'r ail *brotest*, a bu tynghed yr ail yn gyffelyb i dynghed y blaenaf. Cafodd y ddau eu taflu heibio o fewn i ddim gyda *silent contempt*; ond y mae yn llawer o gysur i'r gwrthdystwyr i wybod trwy lythyrau fod rhai o Undodiaid blaenaf Llundain yn cymmeradwyo yr hyn a wnaethant, ac mewn dwfn gydymdeimlad â hwynt. Mae hyn hefyd yn galondid iddynt yn ngwyneb ymosodiadau y Parch. Michael Jones a Dr. P.

Wel, y *protest;* pa beth am dano? A oedd genym ni, fel gweinidogion a chyn-fyfyrwyr yn Ngholeg Caerfyrddyn, ddim hawl o gwbl i amheu anffaeledigrwydd y Bwrdd, a gwrthdystio yn erbyn appwyntiad Mr. W. J. Evans i eistedd yn y Brif Gadair, os oeddem o'r farn nad ydyw ar bob golygiadau yn meddu y cymhwysderau a dybir yn anhebgorol i'r swydd? Os nad ydoedd genym yr hawl hon, a chan gynted ag y gwel yr awdurdodau yn dda i roi i ni wybodaeth o hyn, yr wyf yn addaw, ac yn anturio addaw dros fy mrodyr ereill a osodasant eu henwau wrth y *brotest*, y bydd i ni, un ac oll, wneuthur yr ymddiheurad mwyaf cyflawn a gostyngedig i'r Bwrdd, ac i Mr. W. J. Evans, am i ni erioed fod mor ryfygus ag ymyru mewn mater nad oedd, ac nad yw yn perthyn dim i ni.

Etto, a chymmeryd yn ganiatol *fod* genym hawl, a ydyw y *protest* yn cynnwys dim sydd yn anfoneddigaidd, yn anmherthynasol, neu yn anwireddus? Os ydyw, dangoser hyn i ni, ac yna, bydd i ni ar unwaith alw yr oll yn ol, a gwneuthur pob iawn yn ein gallu am yr amryfusedd. Nis gwn pa beth yn ychwaneg a ellir yn rhesymol ddysgwyl oddiwrthym.

Clywais ddweyd yn ddiweddar fod amryw yn mhlith yr Annybynwyr yn Nghymru a ddewisent leygwr o flaen gweinidog neu bregethwr i lywyddu mewn colegau. Os gwir hyn, rhaid fod eu nifer yn fychan a dibwys, onide paham na osodent leygwyr ar unwaith yn brif athrawon yn Ngholegau Duwinyddol Aberhonddu a'r Bala—y ddau gyfansoddiad? Ond gyda golwg ar Goleg Caerfyrddin, yn rheolaeth yr hwn, yn anffodus, nid oes ganddynt un llaw, nid wyf yn amheu nad oes rhai yn mhlith yr *orthodox*, gan gymmaint eu rhagfarn a'u sectyddiaeth, a ddewisent leygwr, beth bynag ei farn, neu heb un farn o gwbl, yn hytrach na "Phregethwr Sosin," fel eu galwant, i eistedd yn y Brif Gadair yndd o. Maent wedi cael un o'r cyfryw yn y diwedd. Wel, dichon fod rhyw ychydig, a Dr. P. yn un o honynt, yn cyfiawnhau—yn hytrach yn cymmeradwyo—yr appwyntiad diweddar gydag amcan arall mwy annheilwng fyth efallai. Gallwn ddyfalu, er nas gallwn benderfynu, pa beth yw. Ond beth bynag am hyny, yr wyf yn dra sicr yn fy meddwl fy hun pe cai corff mawr yr Annybynwyr lais yn newisiad Prif Athraw Coleg Caerfyrddin, mai nid lleygwr fyddai, ond Gweinidog yr Efengyl, ac yn adnabyddus hefyd fel ysgolhaig a duwinydd. Byddent yn ystyried fod y cymhwysderau hyn yn angenrheidiol mewn un wedi ei bennodi i gymmeryd y flaenoriaeth mewn coleg lle y dygir dynion ieuainc i fyny at waith y weinidogaeth.

A chaniatau, er mwyn ymresymiad, fod *laymen* yn fwy cymhwys i gael yr oruwchreolaeth mewn athrofeydd duwinyddol na Gweinidogion yr Efengyl, rhaid caniatau, ar yr un pryd, fod gwahaniaeth rhwng *laymen* â *laymen*. Yr oedd y diweddar H. Rogers, awdwr yr *Eclipse of Faith*, a llyfrau ereill, yn sefyll fel cymmeriad ar ei ben ei hun, a phe gellid cael ei fath neu un yn debyg iddo, byddai yn gaffaeliad ac yn addurn i bob coleg a allai sicrhau ei wasanaeth. Ond y mae *laymen* o fath H. Rogers yn anaml, ac er fod genyf bob parch rhesymol i Mr. W. J. Evans yn bersonol, ni byddai ond rhagrith noeth i mi ddweyd

fy mod yn ei ystyried ef yn un o'r cyfryw. Wrth enwi y ddau uchod yn y cyssylltiad hwn, yr wyf yn golygu fod y cyferbyniad yn fawr; ond nid wyf heb gofio fod Mr. Evans ar hyn o bryd yn wr ieuanc; a dichon fod enwogrwydd yn ei aros yn y dyfodol.

Bu Mr. Evans unwaith yn efrydu yn Ngholeg Caerfyrddin, ac mewn colegau ereill ar ol hyny, yn ymbarotoi, fel yr oeddid yn meddwl, ac fel yr oeddid hefyd yn gobeithio, i fod yn Weinidog yr Efengyl, fel ei dad a'i dadcu o'i flaen; ond wedi myned trwy y cwrs arferol, a mwy na'r cwrs arferol, o efrydiaeth, trodd ei gefn ar y weinidogaeth, fel ei ewythr, ac amryw ereill, o bryd i bryd, o'i flaen. Nid wyf yn eu beio am hyn. Yr oedd ganddynt eu rhesymau dros wneuthur felly, beth bynag oeddent. Digon tebyg fod ar ryw dudalen o *Minute Book Manchester New College*, neu os nid yno, fod yn nghof y proffeswyr y rheswm a roddai Mr. Evans dros ei wrthgiliad. Onid digon rhesymol, gan hyny, oedd protestio yn erbyn appwyntiad un ag oedd wedi cefnu ar y weinidogaeth i fod etto yn flaenor mewn coleg lle y dygir dynion ieuainc i fyny *i'r* weinidogaeth? Dywedaf etto fel hyn: A golygu i Mr. W. J. Evans drwy gymhelliad cydwybod—pa beth arall?—ymwrthod â'r pwlpud, pa le yr oedd cydwybod y Bwrdd Presbyteraidd pan y galwasant ef drachefn i'r gadair flaenaf yn eu coleg i ddysgu ereill pa fodd i gyflawnu eu dyledswyddau pwlpudaidd mewn modd teilwng o'u galwedigaeth? Ar ryw olwg, cafodd ei *wthio* iddi, oblegyd fel yr wyf yn deall, ni *cheisiodd* 'mo honi erioed! Mae hyn yn ddirgelwch i mi, a charwn yn neillduol gael esponiad o hono.

Clywais fod un neu ddau o hen gyfeillion mynwesol Mr. Evans wedi ysgrifenu ato yn gyfrinachol yn mherthynas i'r helynt hwn, ond na welodd yn dda i gydnabod derbyniad eu llythyron. Buaswn I fy hun, o barch i Mr. Evans, wedi gwneuthur yr un peth, oni bai fy mod yn ofni mai yr un dynghed fyddai i minau. Yr wyf yn bresenol yn appelio at Mr. Evans trwy gyfrwng yr YMOFYNYDD, ac yn gofyn iddo yn y modd mwyaf caredig a didramgwydd ag y medraf—yr wyf yn gofyn iddo, A ddywedodd ef ddim wrth neb erioed ei fod yn *Agnostic* neu rywbeth cyfystyr, ac mai dyna oedd y rheswm nad aeth efe i'r weinidogaeth? Ni fuaswn wedi llawnodi y gwrthdystiad yn Pantdefaid, oni bai i mi gael sicrwydd fod hyny yn wir. Fel y canlyn y bu:—Rhoddwyd y *protest* yn fy llaw fel cadeirydd y Gynnadledd; darllenais ef yn ofalus, arosais uwchben y geiriau, "That he gave up the intention of entering the ministry from such changes of religious belief as precluded him from taking a pulpit," a gofynais a ellid profi hyn? Dywedwyd wrthyf ar unwaith y gellid, a hyny ar dystiolaeth uniongyrchol Mr. Evans ei hunan. Dywed clercod Mr. Evans ei fod gyda dirmyg yn gwadu'r cyhuddiadau a ddygir yn ei erbyn, a'i fod yn hollol rydd oddiwrth agnosticiaeth; ond yn ngolwg y Protestwyr, nid yw eu tystiolaeth o un awdurdod, ac y maent yn ystyried na fyddai yn un sarhad ar Mr. Evans, nac yn un darostyngiad iddo i ateb drosto ei hun. Byddai yn dda genyf, a chenym ni oll, a chan lawer ereill heblaw, pe gwnelai ein cyfaill hyn. Mae annealldwriaeth dybryd, neu rywbeth gwaeth yn rhywle. Hyd nes y profo Mr. Evans

fod y cyhuddiadau yn ei erbyn yn anwireddus a disail, bydd yn rhaid credu fod *agnostic* yn eistedd yn y Brif Gadair yn Ngholeg Caerfyrddin drwy bennodiad a than nawdd y Bwrdd Presbyteraidd yn Llundain. Os ydym ni, fel protestwyr, wedi cael ein camarwain gan dystiolaethau gau, gall Mr. Evans yn rhwydd ddigon, er ein mwyn ni ac er ei fwyn ei hunan yn ogystal, iawnu y camwri.

Mae golwg arall ar y mater, a dymunwn alw sylw ati. Meddylier fod Mr. Evans yn iach, yn lân, "yn hollol rydd oddiwrth bob rhith agnosticiaeth," ac yn Gristion egwyddorol, yr hyn nis gallwn ni, fel protestwyr, ei gredu, oblegyd hyd yn hyn ni wyddom ni ddim yn amgen am dano nâ'r hyn oedd ar ei dystiolaeth ei hun pan ymadawodd â *Manchester New College*. Ond caniataer ei fod wedi dychwelyd i'r hen lwybrau—wedi cael troedigaeth, yr ydym yn methu deall ar ba gyfrif yn y byd y gwnaeth boneddigion y Bwrdd roddi'r flaenoriaeth iddo ar Mr. Manning o Abertawe—"rhyw Manning," fel y dywed un o ohebwyr *Y Celt* mewn diystyrwch. Nid yw Mr. Evans, er pan y mae yn broffeswr yn Nghaerfyrddin wedi dangos un cydymdeimlad â gweinidogion Undodaidd Cymru. Nid yw yn presenoli ei hun yn ein cyfarfodydd chwarterol a blynyddol, nac wedi bod yn un math o gynnorthwy a chefnogaeth i ni yn ein hymdrechion o blaid ein hachos. Mor bell ag yr wyf fi yn gwybod, nid yw yn cymdeithasu â'r Undodiaid o gwbl.

O'r tu arall, mae Mr. Manning, er yn Sais, oddiar pan y mae yn Nghymru, yn mynychu ein cyfarfodydd, yn pregethu ynddynt, yn siarad yn ein cynnadleddau, ac yn gwneuthur pob peth yn ei allu i hyrwyddo blaenfynediad ein hegwyddorion. Mae wedi gwneuthur ei hunan yn un o honom. Mae yn sefyll yn uchel fel pregethwr ac ysgolhaig yn ngolwg y rhai sydd yn alluog i farnu.

Awgryma un gwr dysgedig a mwynfoes mai rhyw giwaid o greaduriaid creulon a difanners yw gweinidogion yr Undodiaid, ac na wna "neb sydd â pharch iddo ei hun" fyned i'w plith. Wel, gadawer mai isel a chwrs ydym, mae Mr. Manning yn gallu cyd-ddwyn â ni, ac yn hoffi ein cymdeithas. Nid wyf yn meddwl fod Mr. Evans, o ran dygiad i fyny mewn unrhyw ystyr, yn sefyll yn uwch nâ Mr. Manning, ac o ganlyniad, y byddai yn un diraddiad iddo nac yn ysmotyn ar ei gymmeriad i roddi ei bresenoldeb weithiau, o leiaf, yn ein cyfarfodydd a'i gynghorion yn ein cynnadleddau. Heb ychwanegu, Mr. Evans yw y Prif Athraw, ac y mae y pennodiad yn ddirgelwch anesponiadwy i ni, oddieithr, fel y mae rhywun wedi awgrymu, i ni gredu yr hyn sydd yn annghredadwy—fod rhywbeth a fyno neiaintgarwch *(nepotism)* â'r gwaith.

Cyn terfynu, dylwn wneuthur sylw o'r erthygl a ymddangosodd yn *Y Celt* am Ebrill 13. Byddai yn anfoneddigaidd ynof i beidio gwneuthur hyny, a hithau wedi cael ei chyfansoddi gan un o'r mwyaf boneddigaidd o foneddigion llenyddol Cymru—awdwr y llyfr, neu yn hytrach, y traethawd dysgedig hwnw, *Gargantua*, ac un o emau dysgleiriaf llenyddiaeth Annybynia; ond o herwydd fy mhylni meddyliol yn fwyaf tebyg, yr wyf yn methu canfod yn yr erthygl ddim ag sydd

yn perthyn hyd y nod o hirbell i'r mater mewn dadl. Y ddadl yw, A ydyw Prif Athraw dewisedig Coleg Caerfyrddin yn gymhwys i'w swydd ai nad yw? Dywed y Dr. dysgedig mai Undodiaid oeddynt y rhan fwyaf o'i berthynasau. Efallai taw, a'i bod yn golled i'r Undodiaid ei fod wedi gwadu y graig o'r hon ei naddwyd. Ond beth sydd a fyno hyny â'r pwnc? Dywed "nad yw bod yn bregethwr yn elfen yn nghymhwysder dyn i fod yn athraw yn ein Colegau Cenedlaethol—Caerdydd, Aberystwyth, a Bangor." A yw Coleg Caerfyrddin—ïe, a Cholegau y Bala (y ddau gyfansoddiad), Trefecca, Aberhonddu, Pontypwl, &c., yn *University Colleges*. Sonia am "ragoriaethau Mr. Evans." Yr ydym yn barod i addef ei ragoriaethau, a phawb sydd yn ei adnabod a wnant hyn. Yn ei *gymhwysderau* yr ystyrir ef yn ddiffygiol. Gwn am ddynion y perthyn iddynt gynnifer o ragoriaethau â Mr. Evans, ond nid ydynt yn addas i fod yn athrawon i ddysgu pregethwyr. Mae eisieu dyn *cymhwys* at y gwaith, ac nid dyn rhagorol yn unig. Yn ei erthygl mae y Dr. yn dweyd nad yw dyllhuanod Dyffryn Clettwr, oddieithr un, yn gwybod dim am ragoriaethau Athrofa Pont Shân; gallasai ychwanegu, na dim ychwaith am ragoriaethau Dr. Pan Jones o Fostyn. Yr wyf yn ofni nad ydwyf yn iawnddeall yr awgrymiadau. Mae y Dr. yn ysgrifenu mor allegol, a charwn iddo egluro ei ffugrau pan fo arfod ganddo. Mae yr Eglwysi Annybynol, medd ef, yn casglu rhyw £800 y flwyddyn at Goleg Caerfyrddin, a gofyna mewn diystyrwch, "Pa faint mae gwyr protest Pantdefaid a'u praidd yn gasglu ato?" Yr wyf yn ateb, Dim, ac nid yw yr Annybynwyr ychwaith yn casglu dim ato. Mae y swm a gyfranant, pa faint bynag yw, yn myned, nid i gynnal y *coleg*, ond i gynnal yr *efrydwyr Annybynol yn* y coleg. Mae holl dreuliau y coleg—oddeutu £700 y flwyddyn—yn cael eu talu allan o'r *Presbyterian Fund*, ac y mae rhyw £400 yn weddill. Efallai y gŵyr Dr. P. yn well nâ mi i ba logellau y mae y swm olaf yn myned. Ond gadawer i Dr. P. ymffrostio yn y swm o £800, a meddylier mewn cariad ei fod ef ei hun yn un o'r mwyaf hael o'r cyfranwyr, nid yw Mr. Evans yn fwy na llai cymhwys i'w swydd o herwydd hyny. Mae'r *Celt* a'r *Darian*, meddai'r Dr., at wasanaeth y protestwyr, ond iddynt ysgrifenu yn foneddigaidd, &c. *Boneddigeiddrwydd Y Celt!!* Newyddiadur *boneddigaidd* yn bendifaddeu *yw*'r *Celt*. Nis gwn I ddim am y *Darian*. Bu'r *Celt* yn foneddigaidd iawn i'r Undodiaid yn adeg helynt y *guano* gynt. Byddai felly etto, nid wyf yn amheu, pe byddai yn cael y cyfleusdra; ond cyn gallu meistroli ieithwedd foneddigaidd deilwng o dudalenau glân *Y Celt*, byddai yn ofynol fod yr awdwr yn cyfansoddi dan ysprydoliaeth Pwrs Llawn y Presbyterian Board. O ddiffyg hyn, yr wyf yn anfon y llinellau uchod i'r Ymofynydd.

Pantdefaid, Mai y 14eg, 1888. Thos. Thomas.

Dywed un Mr. John Jones, *relieving officer* yn Stepney, Llundain, ei fod wedi ystyried yn ofalus saith mil o geisiadau am help o'r plwyf, ac mae yn cael nad oes rhagor nag un o bob cant yn dyfod oddiwrth lwyr-ymwrthodwyr.

NODYNAU GWASGAROG.

Y GYNNADLEDD YN LEEDS.

Cynnaliwyd y gynnadledd dair-blynyddol hon yn y lle uchod Ebrill 24, 25, a'r 26. Mae yn gofus gan ein darllenwyr i'r gynnadledd gyntaf gael ei chynnal yn L'erpwl yn y flwyddyn 1882. Canlyniad da y cwrdd hwnw oedd sefydliad y drysorfa tuag at chwyddo ychydig ar gyflogau y gweinidogion nad yw yr hyn a dderbyniant oddiwrth eu capeli ond rhy brin i roddi iddynt angenrheidiau bywyd. Mae y drysorfa hon yn awr wedi bod ar waith am amryw flynyddoedd, ac yn ddiamheu wedi gwneyd lles mawr. Cynnaliwyd yr ail gynnadledd yn Birmingham yn 1885, a'r drydedd ar yr amser a nodwyd yn Leeds. Nid yw yn ein bwriad i roddi crynodeb o'r papyrau rhagorol a ddarllenwyd yno ar destynau dyddorol yn dal agos gyssylltiad â'n henwad, ond ceisiwn yn fyr roddi braslun o'r araeth ardderchog a draddodwyd gan yr hybarch Ddr. Martineau. Siaradodd am ddwy awr, yr hyn oedd yn syn pan ystyrid fod yr athronydd wedi cyrhaedd ei bedwar ugain a thair blwydd y Sadwrn cyn hyny.

Ei destyn oedd, "Trefn ein Heglwysi." Dywedai nad oedd ganddo un gwrthwynebiad i'r gyfundrefn gynnulleidfaol fel egwyddor, ond fod eisieu gwelliant—ei bod yn amddifad o undeb. Cyfyngodd ei araeth i ddangos mai y gwir welliant yw, fod yr Undodiaid yn mabwysiadu, neu yn hytrach yn dychwelyd at y ffurf Bresbyteraidd o lywodraeth, ond heb un cyssylltiad à chredöau fel y mae gyda'r Presbyteriaid Ysgotaidd. Carai weled pob gweinidog yn cael ei gynnal yn y cyfryw fodd ag i'w wneyd ef yn annybynol, a chreda mai cynllun y drysorfa gynnorthwyol sydd gan yr Eglwys Rydd yn Ysgotland, yw yr unig ffordd y gellir gwneyd hyny. Byddai rhaid pennodi diaconiaid neillduol, gwaith y rhai fyddai canfasio yn bersonol bob un sydd yn perthyn i'r gynnulleidfa, ac annog oddiwrthynt danysgrifiad wythnosol, y dylai yr arian hyn gael eu casglu gan y diaconiaid, eu talu ganddynt hwy i'r trysorydd, a chanddo ef drachefn i'r trysorydd cyffredinol *at head-quarters.* Cyfrifai ef fod 220 o gynnulleidfaoedd yn Nghymru a Lloegr a ellir cael eu hystyried yn rheolaidd, ac os gwna pob aelod gyfranu ar gyfartaledd chwe' cheiniog yr wythnos, delai y cyfanswm, digon tebyg, yn £33,535 y flwyddyn, yr hyn a roddai i bob gweinidog a fyddo wedi ei bennodi yn rheolaidd £150 y flwyddyn. Daliai y byddai pob tanysgrifiwr i'r drysorfa yn aelod o'r eglwys, a chanddo hawl i sedd rydd yn ei gapel ei hun, neu unrhyw gapel arall y dygwyddai fynychu. Aeth y Dr. yn mlaen wedy'n at y pwnc o ddewis ac o addysgu gweinidogion. Dywedai fod hyn yn cael ei gario yn mlaen yn y ffordd fwyaf syml yn Ysgotland. Gosodir ymgeisydd am y weinidogaeth o dan arolygiaeth *Presbytery*, ac edrycha y *Presbytery* hon ar ol ei addysg, arhola ef o bryd i bryd, gosoda ef ar brawf, a charia ef yn mlaen hyd derfyn ei yrfa. Cynnygiodd y dylai fod byrddau dosparthol, yn cyn-

nwys gweinidogion cylch neillduol, gyda dau leygwr am bob gweinidog, i ba rai y dylai y ddyledswydd hon gael ei chyflwyno. Maentumiai mai Presbyteriaeth oedd dechreuad Undodiaeth. Ei sylfaenydd hwy fel corff—Baxter—oedd yn Bresbyteriad ei hun. Ymunai y Baxteriaid—pawb oedd yn ei ddylyn ef—a'r ffurf-lywodraeth Bresbyteraidd. Collwyd y lywodraeth hon o dan ddylanwad erledigaeth a gorthrwm, nes yr oedd cyd-weithrediad yn anmhossibl. "'Rwy'n dweyd" meddai, "nad oes genym un rheswm o gwbl, pan y gallwn wneyd hyny, am beidio dychwelyd at y cyfansoddiad Presbyteraidd—y cyfansoddiad ag ydym wedi etifeddu. Nid ydym yn rhwym yn y mesur lleiaf i barhau ein *system* bresenol o neillduedd wrthun." Yn ol ei farn ef, nid yw Presbyteriaeth, o angenrheidrwydd, yn gul. Yn Switzerland, Holland, a rhanau ereill o'r byd, yr ydys wedi cael digon o le i dduwinyddiaeth mor eang ag mae'r Undodiaid yn geisio. "Beth," meddai, "yw yr egwyddor ar yr hon y gall ein heglwysi ymuno yn un eglwys ac yn un enw?" Y gwahaniaeth rhwng eglwysi ereill a'n heglwysi ni yw hyn—dywedant *hwy*, diysgogrwydd ac iawnffyddiaeth mewn credo, na ellwch wyro byth oddiwrthi. Dywedwn *ni*, o'r ochr arall, dadblygiad, ymeangiad, tyfiant o fewn i'r ammodau—ammodau ysprydol y bywyd Cristionogol. Dyna y gwahaniaeth, a dywedaf y bydd yn ddydd niweidiol, yn ddydd annheilwng, pan y gadawn ni yr egwyddor fawr ac eang yna, ac yn lle cadw at y tir catholig, cymmeryd i fyny y tir cul o ymlyniad wrth ddefodau, neu wahaniaethau mewn athrawiaeth. Mae y gwahaniaeth rhwng y ddwy egwyddor yn anferthol. Dywed un fod pob dadblygiad sydd a thuedd ynddo i wneyd gwahaniaethau yn ffordd i ddystryw. Dywed y llall fod holl amrywiaethau cred ar lwybrau iachawdwriaeth. Ond beth fydd enw yr eglwys hon? Gwrthwynebai Dr. Martineau i'r enw Undodaidd i gael ei roddi ar yr "Eglwys Baxteraidd," a dangosodd na chafodd yr enw hwnw erioed ei roddi ar un o'n heglwysi hyd tua chanrif yn ol, pan ysgrifenodd Priestley at Mr. Lindsey, "nad oes ond un lle Undodaidd yn y wlad, a hwnw yw Eglwys Essex street." Dywedai Dr. Martineau nad oedd yr enw yn gosod allan o gwbl, ond yn gwrthddweyd y gwirionedd ar yr hwn yr oedd eu heglwys wedi ei sefydlu ar y cyntaf. Yr oedd ef am i'r enw "Presbyteriaid Seisnig" gael ei ddefnyddio. Cafodd ef ei hunan ei ordeinio yn weinidog Presbyteraidd, ac am ddeng mlynedd ar hugain yr oedd wedi byw hanner ei amser yn Ysgotland. Ei farn bwyllog ef oedd "mai yr Eglwys Bresbyteraidd yn yr Ysgotland yw yr eglwys fwyaf boblogaidd, fwyaf treiddiol, a mwyaf haelfrydig ag y gwn I am dani yn Nhred."

Derbyniwyd yr araeth hynod hon yn ffafriol iawn, er i lawer o'r manylion gael eu dadleu yn wresog. Yn y diwedd, pennodwyd pwyllgor i ystyried yr holl bwnc, ac i alw cynnadledd neillduol i dderbyn eu hadroddiad.

Naill ai y mae Duw neu nad oes; naill ai y mae'n rhaid i ni ymdrechu bod yn debyg i Grist, neu nid yw; naill ai y gellir rhyddhau y byd hwn o'i ddrygioni, neu ni ellir. Os nad oes Duw, os yw y bywyd

tebyg i Grist yn freuddwyd gwag ac ofer; os yw drwg bethau'r byd i ddal eu llywodraeth a'u meistrolaeth am byth dros y cenedloedd, cauwn ddrysau ein capelau, a pheidiwn mwy gwneuthur ymddangosiad ofer o weddi. Ond os oes Duw, os yw dyfod yn debyg i Grist yn un dyhead arbenig y gallwn ddwyn adref at ein calonau a'n cydwybodau; os dichon y byd hwn gael ei guddio â chyfiawnder, fel mae y dyfroedd yn toi y môr, yna, pa gywilydd sydd guddiedig mewn gwasanaeth ddioglyd, mewn diofalwch? Pa ddefosiwn a all fod yn rhy ddysglaer? Pa wasanaeth yn rhy galed, pa hunan-aberth yn rhy gyflawn? Yn nyfnderoedd fy enaid, yr wyf yn credu y gellir cael adfywiad ein bywyd ysprydol mewn *un* peth—mewn ffydd gyflawnach, gyfoethocach, mwy gwresog a phersonol, yn yr Arglwydd, Arglwydd o gyfiawnder perffaith, o gariad anfarwol, presenoldeb a gallu yr hwn nis beiddiwn ei amheu. Wedi ein llanw â'r ffydd hon, ni gawn ein meddiannu gan fendigedigrwydd annhraethol, a llawenydd a heddwch yn nghartrefleoedd ein gweddi a'n mawl, pa un a fyddo dau neu dri wedi dyfod yn nghyd yno, neu ynte fod yno filoedd yn rhoi neu yn cadw yn ol eu cydymdeimlad. Dan arweiniad ein ffydd hon, ni a gyrchwn at y nod o gamp uchel ein galwedigaeth—gogoniant pur a difrychau Crist! Wedi ein cynhyrfu gan y ffydd hon, nis boddlonir ni i edrych yn unig megys ymwelwyr ofer a chywrain, tra mae'r frwydr ofnadwy rhwng Cyfiawnder ac Anngnyfiawnder yn cael ei hymladd ar esgynlawr pob enaid byw, ac ar faes eangach y byd yr ydym yn byw ynddo.—Dr. Crosskey yn y *Leeds Conference*, 1888.

BRWYDR ENWADAETH ETTO.

Trwy lawer o ymdrech ac o ffyddlondeb ar ran rhywrai yr ydym yn mwynhau y gyfran o ryddid sydd genym yn bresenol, ac a wnawn ni trwy ein hesgeulusdod a'n hanffyddlondeb aberthu y rhyddid hwn? Gwyddom fod plaid o ddynion yn ein gwlad ar eu heithaf i'n harwain yn ol i dywyllwch a chaethiwed Pabyddiaeth, ac y mae lle i ofni fod yr elfen sectol yn mhlith yr enwadau yn argoeli bod yn berygl i'r rhyddid a hawlir genym ni. Yr ydym yn gwaeddi am Ddadgyssylltiad, tra y ceir llawer yn ein plith yn awyddus i ddysgu enwadaeth ar draul y cyhoedd. Dywedwn nad oes â fyno'r Wladwriaeth â'n crefydd ni, ac etto cawn filoedd yn gweithio i ddwyn brwydr grefyddol yn ein plith, yn eu hawydd i ddwyn y Beibl i'r ysgolion a gynnelir ar draul y cyhoedd. Yn nghyfeiriad enwadaeth o'r ffurf mwyaf gwrthwynebus y bydd y dylanwad hwn yn gweithio. Pam y mynwn ni, Brotestaniaid Cymru, weithio fel hyn i ddwylaw y Pabyddion? P'am y mynwn ni roddi ein plant i fyny yn rhwym droed a dwylaw i ddylanwad yr offeiriadaeth. Fe ddywedir fod rhaid i'r ddeddf ddarllen *Riot Act* yn erbyn dylanwadau annheg y Pabydd a'r Eglwyswr. Mae hynyna yn swnio yn burion, ond ni a wyddom sut mae yn gweithio yn awr. Mewn lleoedd gwledig mae yr offeiriad yn bobpeth yn bresenol,—fe fydd yn fwy

nâ phobpeth wed'yn. Mae y perygl ar bwys. Ymddeffrowch, wroniaid rhyddfrydiaeth. Rhoddir digon o ryddid i enwadaeth yn bresenol, a defnyddir y rhyddid hwnw yn llawer man yn achlysur i ddysgu yr egwyddorion mwyaf gwrthun, yn ein tyb ni; ac a wnawn ni ganiatau rhagor o ryddid i'r blaid hon? Yn y Mwythig, gofynwyd i'r plant, "Pa gysgodau o'r Arglwydd gawn ni yn Genesis? Beth ydyw ystyr Eglwys, Crist, Uffern, yn Nghredo'r Apostolion?" Gwyddom pa fath atebion a ddysgwylid. A oddefwn ni hyn i gael ei gario allan ar draul arian y wlad? Dysgu crefydd yn wir! Nid wyf am i chwi ddysgu eich crefydd chwi i fy mhlentyn I. *Hands off*, os gwelwch yn dda!

Q. Q.

Manion a Hanesion.

Y Cymmanfaoedd Canu.—Mae'r Undodiaid yn dechreu ymysgwyd o'r cysgadrwydd y dywedir sydd yn no lweddiadol o honynt, ac maent yn brysur barotoi ar gyfer yr uchelwylian ag ydys wedi benderfynu arnynt. Cynnelir Gwyl Undodiaid Dosparth Merthyr ac Aberdar ar yr 31ain o Fai, a bydd drosodd cyn y daw'r llinellau hyn i law y darllenydd. Mae rhagolygon addawol iawn am dani. Bwriada Undodiaid ardal Llandyssul gynnal eu gwyl hwy ar y 6fed o Fehefin, ac mae rhaglen y dydd yn ddyddorol. Y drydedd wyl a gynnelir yn Llanbedr, gan Undodiaid y rhan uchaf o'r sir, ac wrth bob argoel bydd hon hefyd yn llwyddiannus dros ben. Gobeithio na chaiff y gwaith da a rhagorol hwn sydd yn awr mor llewyrchus, ddim ei ollwng i farw o ddifrawder ac oerfelgarwch. Ati, frodyr, na laeswch eich hymdrechion, ond yn mlaen â'r gwaith, ac mae bendith yn sier o ddylyn.

Coleg Caerfyrddin.—Yr ydym yn deall fod yr appwyntiad diweddar yn y coleg uchod wedi tynu gryn sylw yn y *conference* yn Leeds, a bod llythyron yn cael eu dangos yn gyfrinachol yno oeddynt yn trin y pennodiad yn arw. Hwyrach y dengys amser fod y protestwyr yn ymladd dros egwyddor.

Cwmbach.—Cynnaliodd y brodyr Undodaidd yn y lle uchod eu gwyl de flynyddol ar y 7fed o Fai, ac fel yr ydym yn deall, trodd y cyfan allan yn llwyddiannus iawn. Cafwyd hin deg, a daeth cyfeillion yno o'r parthau cylchynol, a chawsant groesaw calonog.

Gellionen.—Ebrill 14, cynnaliodd eglwys Gellionen ei hail gyngherdd flynyddol yn Ysgoldy y Bwrdd, Craigtrebanos. Yr oedd yr ystafell yn orlawn, a phawb yn mwynhau eu hunain a barnu oddiwrth y derbyniad yr oedd y gwahanol gantorion yn gael. Yr *artistes* eleni oeddynt, Mezzo Soprano, Miss Marian Pryce, R.A.M.; Soprano, Miss Pryce, Alltwen; Tenors, Parch. W. J. Davies, Mr. E. Jones; Baritone, Mr. Sandbrook, R.C.W.; Birchgrove String Band, o dan arweiniad Mr. W. G. Smith; Glee Parti Clydach, arweinydd Mr. Alexander. Llywyddodd Mr. Hopkin, Cathelyd, yn ol ei ddull awenyddol arferol. Nid yn ami y ceir y fath gantorion a'r uchod yn ein cyngherddau.

Gellionen.—Y mae yn dda genym ddeall fod Mr. D. Davies, Gellionen Ganol, wedi ei ddewis allan o 16 o ymgeiswyr yn gasglwr trethi yn Mhlwyf Rhyndwyclydach. Un o ffyddloniaid Gellionen yw Mr. Davies. Yn mlaen yr elo'r brawd.

Priodas.—Mai 4, yn Brondeifi, gan y gweinidog, yn mhresenoldeb y cofrestrydd, Mr. Jno. Evans, Penygraig, Llandyssul, â Miss Elizabeth Davies, Cwmanne, Pencarreg.

Marwgofion.

Mawrth 28, yn 21 oed, John, mab Evan ac Ann Evans, Ffinant, ger Bwlchyfadfa—un o selodau y Bwlch wedi ei dori i lawr yn mlodau ei ddyddiau. Claddwyd yn mynwent y capel y Sadwrn canlynol, y Parch. T. Thomas yn gwasanaethu.

Ebrill 6, yn 71 oed, Elizabeth Lewis, Ty'r Capel, Bwlchyfadfa. Gwasanaethodd fel drysor y capel uchod am flynyddau, a rhoddodd foddlonrwydd neillduol yn nghyflawniad y dyledswyddau a ymddiriedid iddi. Claddwyd yn mynwent y capel dydd Llun, Ebrill 9, pryd y gweinyddwyd gan y Parch. T. Thomas.

Ebrill 19, yn 69 oed, Catherine Williams, gweddw y diweddar John Williams, Post Office, Cefncoed. Bu Mrs. Williams farw hytrach yn annysgwyliadwy, er ei bod yn clafychu drwy y Gauaf; ond codai rywfaint bob dydd, a chredai y perthynasau ei bod ar wellhad. Un dawel, bwyllog, ddidwrw, o synwyr cyffredin cryf, oedd ein chwaer—yn fam dda, yn gymmydoges ragorol, ac o fuchedd loew. Yr oedd yn un o aelodau hynaf yr Hen Dy Cwrdd, ac mae ei marwolaeth wedi symmud un arall o'r do henaf yn yr hen gapel hwn, a gobeithio y cyfyd Duw, yn ei ofal tyner, do arall i lanw ei lle. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd y Llun canlynol, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. Aden gariadlawn Duw gaffo ei thaenu dros ei phlant sydd ar ol.

Ebrill 20, yn 22 oed, David, mab Enoch Jones a'i briod, Ddolwen, ger Bwlchyfadfa. Claddwyd yn mynwent y capel dydd Llun, Ebrill 23, a gwasanaethodd y Parch. T. Thomas.

Mai 3, John Davies, Cefncoed, ger Llanwnen, yn 20 oed, ar ol yn agos i bedwar mis o gystudd caled, yr hwn a ddyoddefodd, er hyny, yn dawel ac amyneddgar iawn. Yr oedd ein cyfaill yn aelod ffyddlon o gynnulleidfa ac Ysgol Sabbothol Capelygroes, ac nid byth, os byddai bossibl iddo, y gadawai ei le yn wag; yn yr ysgol yr oedd yn un â'i holl yspryd yn y gwaith, ac nid oedd dim yn rhoddi mwy o foddlonrwydd iddo nâ'i gweled yn llwyddo; ac yr oedd wedi llwyddo fel athraw ar ddosparth y plant i ennill serch pob un o honynt tuag atto, o'r hyn y cawsom brofion amlwg ar lawer tro, yn enwedig ar ol ei farwolaeth. Yr oedd ei rodiad yn ddichlynaidd, yn gyfryw ag oedd yn harddu ei broffes. Yr oedd yn un a sychedai am wybodaeth, ac a deimlai ddyddordeb yn mhob mudiad daionus, ac yn foddlon gwneyd pob peth oedd yn ei allu i hwylusu ei llwyddiant, a gellir dweyd am dano ei fod wedi gwneyd y defnydd goreu o'r talentau oeddynt ganddo, ac wedi eu defnyddio yn y gwaith goreu, yr hyn na ellir ei ddweyd yn gyffredin. Nid colled fechan ydyw colli rhai fel hyn, a dymunem ni pe byddem yn cael mwynhau ei gyfeillach am dipyn bach yn ychwaneg; ond nid ein trefn a'n dymuniadau ni sydd bob amser yn dyfod oddiamgylch. Bellach, bydd ei le yn wag yn y gymmydogaeth ac yn y capel, ac nid oes genym ddim yn ychwaneg i'w wneyd ond gollwng deigryn uwchben ei fedd, a byw yn y gobaith o gael mwynhau ei gymdeithas etto maes o law. Y dydd Sadwrn canlynol, daeth tyrfa luosog yn nghyd i hebrwng yr hyn oedd farwol o hono i orphwys i fynwent Capelygroes, ac yn absenoldeb gweinidog y lle, gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca.—*Cyfaill.*

Mai y 7fed, yn 90 mlwydd oed, ar ol amryw wythnosau o gystudd, Martha Davies, Parcyrhos, Llanwenog. Claddwyd y dydd Mercher canlynol, yn mynwent Capelygroes, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies. Tebyg mai hon oedd yr aelod hynaf perthynol i eglwys Alltyplacca, ac y mae ei symmudiad o'n plith yn rheswm arall i ni dros wneyd a allom er iachawdwriaeth dynion a gogoniant mynegol Duw. "Mi a ymdrechais ymdrech deg."

Mai 8, Mary, merch Evan ac Anne Parry, Pentrechwilen, ger Talgarreg, yn 8 oed. Claddwyd y dydd Gwener canlynol yn Llwynrhydowen, y Parch. Thomas Thomas yn pregethu.

Mai 19, yn 87 oed, William Jenkins, Cefncoed. Yr oedd yr hen dad oedranus hwn yn enedigol o ardal Aberystwyth, a daeth i Gwmtaf flynyddau meithion yn ol, ac yno ac ar y Cefn y bu yn byw drwy weddill ei oes. Cafodd iechyd da drwy ei fywyd hirfaith, a daeth ei ddiwedd fel hwyrnos dawel hirddydd Haf, yn dawel a thangnefeddus. Derbyniodd bob tynerwch gan ei ferch, yn nhy yr hon y trigai. Claddwyd ei gorff y Mawrth canlynol yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, a gwasanaethwyd ar yr amgylchiad gan y gweinidog.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

Barn y Cyhoedd am George's Pills.

DYFYNIADAU O LYTHYRAU.

"Gwerthfawrocach ynt i mi nà'r aur coeth,—arbedasant fy mywyd."

"Yr oedd pob meddyg yn ystyried fy iechyd yn ddiobaith, felly Syr, ar ol i bawb fethu, chwi a'm gwnaethoch yn holl iach."

"Clywais ganmoliaeth uchel i'ch Peleni, ond fy marn ddiduedd yw, na fynegwyd 'mo'r hanner."

"Cyn cymmeryd eich Pills nis gallwn gerdded gan y poen yn fy ymysgaroedd, ond yn awr, er fy mod yn 67 mlwydd oed, yr wyf yn teimlo fel pe na bawn ond 30."

"Yr ydwyf yn canmol eich Peleni wrth fy holl gwsmeriaid, oblegyd y maent yn wir dda."

"Ni welwyd meddyginiaeth fel yr eiddoch chwi erioed o'r blaen yn ein gwlad."

"Cynghorem bawb—o herwydd y ffug-beleni sydd yn y farchnad—i fod ar eu gwyliadwraeth pan yn prynu GEORGE'S PILLS."

"Yr oeddwn yn methu sefyll gan bendro, ac yr oedd *swashes* o ddwfr sur yn dyfod i fy ngenau. Ni chymmerais ond un blychaid o'ch Peleni cyn fy llwyr iachau."

"Yr oedd trymder anarferol yn fy nal ar ol bwyta, a chawn anesmwythder y nos gan freuddwydion brawychus; ac mae fy mhoenau erbyn hyn yn *things of the past.*"

"Er i mi wneyd aml brofion o alluoedd meddygon, yr oedd y cwbl yn ofer hyd i mi wneyd prawf o'ch Peleni chwi."

"Yr ydwyf yn dymuno gwneyd y gwellhad hwn yn hyspys er calondid i chwi, er lles i ereill, ac er clod i'r Goruchaf."

"Y mae llawer o siarad yma (California) am eich Peleni; mawr y lles y maent yn ei wneyd."

"Edrychwn ar eich Peleni fel rhai o'r pethau hyny ag ydynt yn angenrheidiol i gyssur a dedwyddwch teuluaidd."

"Nis gwn am un Feddyginiaeth yn Nghymru mewn cymmaint o fri, nac ychwaith wedi gwneyd cymmaint o ddaioni."

"Edrychir arnoch gan filoedd fel cymmwynaswr i'ch cenedl."

"Mae'n Feddyginiaeth rad, ryfeddol ei pharhad, effeithiol, syml, hawdd ei chael trwy holl ororau'n gwlad."

"Y mae yr Americaniaid yn meddwl y byd am eich meddyginiaeth, er gwaethaf eu rhagfarn yn erbyn pob peth Cymreig."

"After taking a few doses he passed no less than forty gall-stones."

"When I show them the *scores of stones* I have passed by taking your Pills, they are *struck dumb with wonder.* Seeing is believing."

"Your Pills astonish the people here by their miraculous effects."

"Dyma un o'r bendithion mwyaf i ni, y dosparth gweithiol, a allasai Rhagluniaeth ei drefnu."

Ar werth drwy yr holl fyd, mewn blychau 1*s.* 1½*c. a* 2*s.* 9*c. yr un.*

Perchenog :—J. E. GEORGE, M.R.P.S., HIRWAIN.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU (i'r hen Olygydd).—D.T., Ochr-y-rhos; L L., Cardiff.
TALIADAU :—W.L., Pontypridd; E.P., Glyncorrwg; E.J., Aberdar; M.M., Aberdar; P.P., Blaentrafle; J.J., Ty'rdref; D.L., Bwlchyfadfa; J.D., Abertawe; H.J., Fforchgoch; B.B., Treherbert; J.L., Dowlais; W.D., Penbryn; D.T., Ochr-y-rhos.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,
CEFNCOED,
NR. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU :—Pris 8c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL.

Cynnelir Cyfarfodydd Blynyddol Undodiaid Cymru yn Gellionen, Mercher a Iau, Mehefin y 27ain a'r 28ain. Pregethwr appwyntiedig, y Parch. T. Thomas, Pantydefaid. Pwnc y gynnadledd, "Undodiaeth yn Nghymru." Darllenir papyr arno gan Mr. L. N. Williams, Aberdar. Groesaw calonog i bawb yn llen a lleyg. W. J. DAVIES.

GWELLIANT GWALL.

Yn yr YMOFYNYDD am Mai, dygwyddodd gwall mewn cyssylltiad a marwolaeth Mary Hughes. Dylasai fod enw ei thrigfa i fewn, sef Gelly Aeron, Talsarn. Mae yn ddrwg gan yr ysgrifenydd fod hyny wedi dygwydd.

TRYSORFA ADDYSG Y DYNION IEUAINC.

Pob Tanysgrifiadau i'w hanfon i Rev. R. C. JONES, Lampeter

LLAWLYFR YR UNDODWR, PRIS 6CH.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

EMYNAU O FAWL A GWEDDI.

Anfonir copi (*specimen*) rhwym yn rhydd gyda'r *post* am 2s.